2026-2028

# Llawlyfr Llwybrau Dysgu CA5



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

# Pynicau Chweched Dosbarth

| Tud | Pwnc | Lefel A / BTEC / Diploma | Bwrdd Arholi | Darparwr | Athro Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Addysg Gorfforol | | CBAC | YGGBM | Mr J Norgrove |
| 6 | Adeiladwaith | | CBAC | YGGBM | Mr S Davies |
| 8 | Astudiaethau Crefyddol | | CBAC | YGGBM | Mrs G Morgans |
| 10 | Amaethyddiaeth | | Pearson | CSG | Miss N Williams |
| 11 | Bioleg | | CBAC | YGGBM | Mr T Hayes |
| 12 | Busnes | BTEC | Pearson | YGGBM | Mrs M Rees |
| 13 | Celf a Dylunio | | CBAC | YGGBM | Mrs K Richards |
| 15 | Cemeg | | CBAC | YGGBM | Miss C Pritchard |
| 17 | Cerddoriaeth | | CBAC | YGGBM | Mr B Lewis |
| 19 | Cymraeg | | CBAC | YGGBM | Mrs H Evans |
| 21 | Daearyddiaeth | | CBAC | YGGBM / YGS | Mr A Thomas |
| 23 | Drama | | CBAC | YGGBM | Mrs L Davies |
| 25 | Dylunio a Thechnoleg | | CBAC | YGGBM | Mr R Davies |
| 27 | Electroneg | | EDUQAS | MYG | Mr J Williams |
| 28 | Ffiseg | | CBAC | YGGBM | Dr A Thomas |
| 30 | Gofal Plant | | CWG | MM | Miss N Williams |
| 32 | Gwasanaethau Amddiffyn | BTEC | Pearson | YGGBM / YGS | Miss N Williams |
| 33 | Gwleidyddiaeth | | CBAC | YGGBM | Mr G Jones |
| 35 | Gwyddor Bwyd a Maeth | Diploma | CBAC | YGGBM | Mrs N Knott |
| 37 | Gwyddor Feddygol | Tystysgrif L3 | CBAC | YGGBM | Mr T Hayes |
| 38 | Hanes | | CBAC | YGGBM | Mrs B Hubbard |
| 40 | Iechyd a Gofal | | CBAC | YGGBM | Mrs T Jenkins |
| 42 | Mathemateg | | CBAC | YGGBM | Mrs L Davies |
| 44 | Mathemateg Bellach | | CBAC | YGGBM | Mrs L Davies |
| 46 | Peirianneg | Diploma | EAL | YGGBM/MYG | Mr R Davies |
| 48 | Saesneg Llenyddiaeth | | CBAC | YGGBM | Mrs S Rees |
| 50 | Seicoleg | | CBAC | YGGBM/MYG | Mr R Jones |
| 52 | Sbaeneg | | CBAC | YGGBM / MYG | Mrs C Russell |
| 54 | Technoleg Gwybodaeth | | OCR | YGGBM | Mr C Lacey |
| 55 | Troseddeg | Diploma | CBAC | YGGBM | Mrs T Jenkins |
| 57 | Twristiaeth | Diploma | CBAC | MYG | Miss N Williams |
| 58 | Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | | CBAC | YGGBM | Miss E Jones |

**Darparwyr:**

| | |
|---|---|
| **YGGBM** | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin |
| **MYG** | Ysgol Maes Y Gwendraeth |
| **YGS** | Ysgol Gyfun y Strade |
| **CSG** | Coleg Sir Gâr |
| **CWG / MM** | Cam Wrth Gam / Mudiad Meithrin |

# Dewis eich Pynciau Lefel A

Mae dewis eich pynciau Lefel A yn benderfyniad pwysig. Mae'r Lefel A i chi'n dewis nawr yn mynd i effeithio ar yr hyn i chi'n gwneud nesaf, yn bennaf y cyrsiau gallwch gynnig amdanynt yn y brifysgol.

Wedi dweud hynny, os nad ydych yn sicr o'r hyn chi eisiau gwneud yn y dyfodol, gallwch wneud penderfyniadau craff yn awr a fydd yn eich gadael yn y sefyllfa orau posib ymhen dwy flynedd.

Dilynwch y camau isod ac ni fyddwch yn gwneud cam gwag wrth ddewis eich pynciau Lefel A.

## Dewis y pwnc mwyaf addas ar gyfer y dyfodol

Efallai y bydd eich athrawon neu gynghorydd gyrfaoedd yn siarad â chi am bynciau hwyluso; ond beth ydy'r rhain?

Pynciau hwyluso yw'r rhai y bydd prifysgolion yn gofyn amdanynt neu yn eu derbyn, beth bynnag yw'r cwrs i chi'n ceisio amdano. Os nad ydych yn sicr o'ch llwybr gyrfa ar hyn o bryd, mae dewis o'r pynciau hwyluso yn cadw eich opsiynau gradd ar agor.

Y pynciau hwyluso yw:

- Bioleg
- Cemeg
- Cymraeg (prifysgolion yng Nghymru)
- Daearyddiaeth
- Ffiseg
- Hanes
- Ieithoedd tramor modern
- Mathemateg
- Saesneg

Os nad ydych chi'n gwybod beth rydych chi am ei astudio yn y brifysgol, fe all dalu ar ei ganfed yn ddiweddarach i gymryd un neu ddau o'r rhain.

## Y naid rhwng TGAU a Lefel A

Wrth ddewis eich pynciau Lefel A bydd siŵr o fod un o dri rheswm fel arfer:

- mae ei angen arnoch i ddilyn gyrfa benodol
- mae'n bwnc rydych chi'n ei fwynhau ac yn dda ynddo
- mae'n bwnc nad ydych chi wedi'i astudio o'r blaen ond rydych chi'n meddwl y bydd yn addas ar eich cyfer

Beth bynnag yw'r rheswm dros eich dewis, byddwch yn barod i'r cynnwys a'r syniadau a astudir fod yn llawer anoddach wrth i chi symud o TGAU i Lefel A. Byddwch hefyd yn gweld gwahaniaethau yn y ffordd rydych chi'n cael eich dysgu ac yn yr hyn a ddisgwylir gennych chi. Disgwylir i chi fod yn ddysgwr llawer mwy annibynnol a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eich dysgu eich hun e.e. ymgymryd ag ymchwil pellach neu ddarllen yn ehangach o gwmpas eich astudiaethau.

## Gofynion Cyrsiau Prifysgol

Ni fyddwch yn gallu ymgeisio i rai cyrsiau gradd heb eich bod wedi astudio rhai pynciau Lefel A penodol (a llwyddo i gael y graddau disgwyladwy yn y pwnc).

Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau sydd â gofynion penodol ar gyfer mynediad i gwrs prifysgol:

- Ar gyfer cwrs mewn fferylliaeth bydd angen Lefel A Cemeg, ynghyd ag o leiaf un o'r canlynol: Bioleg, Mathemateg a Ffiseg

- Er mwyn astudio Saesneg bydd disgwyl eich bod wedi astudio llenyddiaeth Saesneg fel arfer.
- Os ydych eisiau astudio Daeareg / Gwyddorau Daear rhaid bod gennych dau o'r canlynol: Daearyddiaeth, Mathemateg, Ffiseg, Cemeg neu Bioleg.
- I astudio Economeg weithiau mae angen Mathemateg ond anaml iawn y mae angen Lefel A Economeg arnoch chi.
- Mae cwrs mewn meddygaeth yn gofyn am lefel A mewn Cemeg a rhai prifysgolion yn mynnu Bioleg hefyd, neu wyddoniaeth arall. Yn aml mae Mathemateg yn ddymunol.

Bydd ambell gwrs penodol yn ystyried bod rhai pynciau Safon Uwch yn baratoad mwy effeithiol ar gyfer astudiaethau prifysgol nag eraill. Yn yr un modd, mae rhai prifysgolion yn rhestru pa bynciau Safon Uwch sydd yn dderbyniol ganddynt er mwyn cael mynediad i'r sefydliad. Bydd prifysgolion eraill yn adnabod pynciau na fyddant yn fodlon eu hystyried o gwbl. Os oes gyda chi gwrs penodol mewn golwg, cyn i chi ddewis eich pynciau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych wybodaeth gywir a rhaid gwirio eich ffeithiau naill ai trwy ymchwilio ar wefan UCAS neu trwy ddarllen prosbectysau gwahanol brifysgolion.

Wedi i chi wneud ymchwil, os nad yw eich dewis pynciau yn cyfateb, ni ddylech o reidrwydd droi eich cefn ar y cwrs, na chael eich rhwystro rhag cymryd pwnc Safon Uwch creadigol neu alwedigaethol y mae gennych ddiddordeb mawr ynddo. Yn hytrach, gwnewch yn siŵr eich bod yn bodloni gofynion mynediad y cwrs gyda'r pynciau Safon Uwch eraill rydych chi'n eu hastudio.

Ni fydd astudio pwnc tebyg i astudiaethau crefyddol, gwleidyddiaeth, troseddeg ar y cyd ag o leiaf un (dau yn ddelfrydol) o'r pynciau hwyluso a restrir uchod yn broblem, os ydych chi'n cael y graddau disgwyladwy.

## Dilyn eich ffrindiau

Gwneud eich dewis o bynciau Lefel A fydd un o'r penderfyniadau pwysicaf yn eich bywyd a falle'r un cyntaf byddwch yn ei wneud ar eich pen eich hun. Peidiwch â dewis pwnc oherwydd eich bod yn credu byddwch yn yr un dosbarth a'ch ffrindiau. Yn ogystal, peidiwch â gadael i farn eich ffrindiau am bwnc ddylanwadu ar eich dewis.

## Taenwch eich adenydd

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o bynciau ar gyfer Lefel A sydd yn newydd i chi. Ystyriwch y rhain yn ofalus. Falle bod eu cynnwys neu'r dull asesu ar eu cyfer yn addas iawn ar eich cyfer.

## Dilyn athro

Mae gan bob un hoff athro ond ni ddylech ddewis pwnc oherwydd hynny yn unig, yn enwedig os nad ydych yn dda yn y gwaith. Ystyriwch a fyddech chi'n teimlo cymaint o ddiddordeb yn y pwnc pe bai rhywun arall yn ei ddysgu? Cofiwch mai eich gallu a diddordeb yn y pwnc sydd yn bwysig ac nid yr athro.

## Dewis pynciau galwedigaethol

Os ydych yn dewis astudio cwrs BTEC neu gwrs Cambridge Technical yn y Chweched Dosbarth, bydd yr ysgol yn gorfod eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster erbyn Medi 29ain 2026 trwy dalu ffi gofrestru o tua £175. Os dewiswch dynnu'n ôl o'r cwrs hwn cyn i chi gwblhau'r cymhwyster dwy flynedd, yna bydd disgwyl i'ch rhieni ad-dalu'r ysgol am y ffî gofrestru lawn.

# Addysg Gorfforol

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol [UG] a Safon Uwch [A2] yn seiliedig ar ddatblygu a mireinio gallu corfforol myfyrwyr mewn gwahanol weithgareddau corfforol ac yn rhoi cyfle i fwynhau cwrs cynhwysfawr a hwylus sy'n datblygu gwahanol rolau fel rôl perfformiwr, arweinydd a dyfarnwr. Mae'r trawsdoriad o sgiliau a ddatblygir yn addas ar gyfer astudio Addysg Gorfforol neu faes perthynol addysg uwch [Graddau mewn Gwyddor Chwaraeon, pedagogeg ac egwyddorion hyfforddi chwaraeon yn ogystal â chyrsiau megis therapi chwaraeon a ffisiotherapi], cymwysterau galwedigaethol [Datblygu Chwaraeon] neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae Addysg Gorfforol yn ymwneud a helpu myfyrwyr i fod yn weithwyr annibynnol ac yn benderfynwyr gwybodus a chraff ac mae'n eu herio i fod yn ymarferwyr myfyriol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

O leiaf gradd C mewn TGAU Addysg Gorfforol, er mae yn bosib i unigolion priodol ddilyn y cwrs heb fod wedi dilyn cwrs TGAU.

## Cynnwys y cwrs?

Caiff myfyrwyr y cyfle i ddatblygu, cymhwyso ac addasu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau mewn gwahanol fathau o weithgareddau corfforol.  Rhoddir y cyfle i chi gynnal a datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ffactorau sy'n eich galluogi i berfformio'n effeithlon ac i fod yn gorfforol fywiog fel rhan o ddull cytbwys o fyw. Cewch gyfle hefyd i ddatblygu gwybodaeth am y ddealltwriaeth a'r gwahanol elfennau corfforol a meddyliol sy'n cyfrannu at berfformiad effeithiol a sut mae tueddiadau a datblygiadau cyfredol yn dylanwadu ar berfformiad.

**Gweithgareddau Allgyrsiol:** Mae'r rhestr o gyfleoedd allgyrsiol yn rhy faith i restru yma ond maent yn rhan annatod o'r cwrs ac yn rhoi cyfle i berfformio, arwain, hyfforddi a dyfarnu yn ogystal a gosod esiampl dda o gyrhaeddiad, ymroddiad a dilynwyr dull cytbwys o fyw i weddill yr ysgol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Archwilio Addysg Gorfforol | 72 marc (24% o'r cymhwyster) | Cwestiynau wedi'u cyd-destunoli i gynnwys cwestiynau dewis lluosog, ymateb i ddata, byr ac estynedig | Arholiad ysgrifenedig (allanol) 1 ¾ awr |
| **Uned 2** | Gwella perfformiad personol mewn Addysg Gorfforol | 48 marc (16% o'r cymhwyster) | Perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr (24 marc). Perfformiad ymarferol fel hyfforddwr neu ddyfarnwr (12 marc) **a**<br>Proffil Perfformiad Personol (12 marc) | Asesiad di-arholiad |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Gwerthuso Addysg Gorfforol | 90 marc (36% o'r cymhwyster) | I asesu'r holl gynnwys pwnc Safon Uwch. Mathau o gwestiynau: Amrywiaeth o gwestiynau i gynnwys cwestiynau ymateb i ddata, byr ac estynedig U2 | Arholiad ysgrifenedig (allanol)<br>2 awr |
| **Uned 4** | Mireinio perfformiad personol mewn Addysg Gorfforol | 60 marc (24% o'r cymhwyster) | Perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr, hyfforddwr neu ddyfarnwr (30 marc) **ac** Ymchwiliad (30 Marc) | Asesiad di-arholiad |

# Amgylchedd Adeiledig

## Pam astudio'r pwnc?

Os dewiswch Adeiladwaith ar gyfer Lefel UG/A bydd yn agor llawer o ddrysau. P'un a'ch bod yn cael eich denu gan ddylunio, cyflawni, costau a chontractau, neu berfformiad amgylcheddol, byddwch yn magu sylfaen dechnegol gadarn, sgiliau trosglwyddadwy, a llwybr cyflym i yrfaoedd modern â phwrpas, ynghyd â llwybrau prentisiaeth a ariennir sy'n eich galluogi i adeiladu'ch dyfodol wrth adeiladu dyfodol Cymru.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a sefydlwyd yn y cyrsiau TGAU. Efallai bod rhai dysgwyr eisoes wedi ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trwy eu hastudiaeth o'r Amgylchedd Adeiledig ar Lefel 2.

Bydd angen i ddysgwyr fod wedi cyflawni cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 / TGAU yn CA4. Bydd sgiliau da iawn mewn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Cymraeg a Thechnoleg Cyfathrebu Gwybodaeth yn sail dda ar gyfer dilyniant i'r cymhwyster Lefel 3 hwn, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd drwy astudio cymwysterau Lefel 2 neu TGAU.

## Cynnwys y cwrs?

Mae Cymhwyster TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch CBAC mewn Amgylchedd Adeiledig wedi ei ddatblygu â'r nod o wella dealltwriaeth dysgwyr o sut mae adeiladau a strwythurau'n cael eu cynllunio, eu dylunio, eu hadeiladu, eu gweithredu ac yn y pen draw eu haddasu neu eu hailddefnyddio. Mae'r cwrs yn cwmpasu cylch bywyd adeiledd llawn – o ddiffiniad strategol cychwynnol, trwy'r broses ddylunio a'r adeiladu, i weithredu a dymchwel neu ailddefnyddio. Mae hefyd yn datblygu gwybodaeth am rolau proffesiynol yn y sector, mathau o strwythurau, dulliau adeiladu, gwasanaethau adeiladu, cynaliadwyedd, a'r fframweithiau rheoleiddiol a sefydliadol sy'n dylanwadu ar y diwydiant. Ar lefel UG, mae dysgwyr yn astudio egwyddorion yr amgylchedd adeiledig ac yn cwblhau aseiniad di-arholiad sy'n canolbwyntio ar ddylunio ac ar gynllunio; ar lefel Uwch, maent yn symud ymlaen i astudiaeth dechnegol ddyfnach o ddeunyddiau, technolegau, arolygu ac ymarfer adeiladu, ynghyd ag aseiniad di-arholiad ychwanegol sy'n cynnwys naill ai arolygu adeilad neu arolygu tir.

Rhennir yr asesiad yn bedair uned: dwy ar lefel UG a dwy ar lefel A2. Mae Uned 1 UG yn bapur ysgrifenedig sy'n asesu adeiladau, strwythurau a rolau proffesiynol, tra bod Uned 2 UG yn asesiad di-arholiad sy'n cynnwys prosiect dylunio a osodir gan CBAC. Ar lefel Uwch, mae Uned 3 yn asesu cynnwys technegol uwch — gan gynnwys deunyddiau, ffiseg adeiladu, gwasanaethau ac amodau byw — trwy arholiad ysgrifenedig estynedig. Mae Uned 4 yn asesiad di-arholiad cymhwysol lle mae dysgwyr yn dewis llwybr arolygu adeilad neu tir, gan gynhyrchu cysyniad datblygu a dogfennau rheoli adeiladwaith cysylltiedig, gan gynnwys costio a chynllunio gweithgareddau. Mae'r cymhwyster yn darparu sail gadarn ar gyfer gyrfaoedd neu astudiaeth bellach mewn pensaernïaeth, peirianneg, arolygu, cynllunio, rheoli adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu, ac mae'n rhoi pwyslais arbennig ar gynaliadwyedd, dylunio digidol, ac arferion cyfoes y diwydiant.

## Sut asesir y cwrs?

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | UG Uned 1: Ein hamgylchedd adeiledig. Arholiad ysgrifenedig: 2 awr | 20% | Papur ysgrifenedig yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig. Cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb. | Arholiad allanol. |
| **Uned 2** | UG Uned 2: Arferion dylunio a chynllunio Asesiad di-arholiad: tua 30 awr | 20% | Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr o ran arferion dylunio a chynllunio. Bydd CBAC yn gosod briff cyd-destunol bob cyfres arholiadau. Mewn ymateb i'r briff hwn, bydd dysgwyr yn cyflawni project ymarferol a fydd yn arwain at ganlyniadau diriaethol, gan gynnwys gweithgareddau ymarferol a gweithgareddau cynllunio a gwerthuso. | Marcio mewnol a chymedroli allanol. |
| **Uned 3** | U2 Uned 3: Defnyddiau, technolegau a thechnegau. Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud | 30% | Papur ysgrifenedig yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys penodol sy'n ymwneud â'r defnydd o ddefnyddiau, technolegau a thechnegau yn yr amgylchedd adeiledig. Cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb. | Arholiad allanol. |
| **Uned 4** | U2 Uned 4: Arferion adeiladu Asesiad di-arholiad. | 30% | Mae gan ddysgwyr ddewis o ddau lwybr o fewn Uned 4: byddant naill ai'n cynnal arolwg adeiladu neu arolwg tirfesur. Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr o ran arferion adeiladu. Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lunio cysyniad datblygu yn seiliedig ar ganfyddiadau eu harolwg. Mae angen iddynt hefyd lunio gwybodaeth ddilynol ar gyfer rheoli gwaith adeiladu, gwybodaeth am drefniadau prynu a materion ariannol a rhaglen o weithgareddau yn seiliedig ar eu cysyniad datblygu. | Marcio mewnol a chymedroli allanol. |

# Astudiaethau Crefyddol

## Pam astudio'r pwnc?

Mae Astudiaethau Crefyddol yn cynnig y cyfle heriol i astudio credoau, profiadau dynol a digwyddiadau crefyddol. Mae'n datblygu diddordeb mewn astudiaeth drwyadl o grefydd a chred a'i chysylltu â'r byd ehangach. Datblygir dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o feddylfryd crefyddol a'r cyfraniad a wna i fywyd unigolion, cymunedau a chymdeithasau. Mae'n annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau rhesymu, archwilio a dadansoddi. Mae'n gwrs cyffrous ac yn galluogi myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys am y byd y maent yn byw ynddo. Mae'r cwrs yn gofyn i chi ddatblygu sgiliau ysgrifennu traethodau, cymryd nodiadau, dysgu technegau ymchwil a darllen yn eang.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes gofynion penodol ar gyfer mynediad i'r cwrs, er byddai o leiaf gradd C mewn TGAU Cymraeg neu Astudiaethau Crefyddol yn fanteisiol.

## Cynnwys y cwrs?

Ym Mlwyddyn 12 astudir dwy uned o waith a thair uned ychwanegol ym Mlwyddyn 13. Asesir pob uned trwy arholiad allanol yn unig.

Yn uned 1 ceir cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd. Ceir arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud sy'n 15% o'r cwrs. Asesir dysgwyr ar un o'r opsiynau canlynol o ddewis o 6: Cristnogaeth; Islam; Iddewiaeth; Bwdhaeth; Hindŵaeth; Sikhiaeth. Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o rai o nodweddion allweddol un o grefyddau'r byd, yn amrywio o ffigyrau crefyddol i arferion crefyddol.

Yn yr ail uned ceir cyflwyniad i Grefydd a Moeseg ac i Athroniaeth Crefydd. Ceir arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud sy'n 25% o'r cymhwyster. Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o gysyniadau a damcaniaethau moesegol, yn amrywio o absoliwtiaeth foesol i Iwtilitariaeth. O fewn cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o rai o nodweddion allweddol themâu athronyddol sylfaenol, yn amrywio o ddadleuon dros fodolaeth Duw i brofiad crefyddol.

Ym mlwyddyn 13eg mae tair uned sef Astudiaeth mwy manwl ac eang o'r unedau a astudiwyd ym mlwyddyn 12eg.

Uned 3: Astudiaeth o Grefydd. Ceir arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud sy'n 20% o'r cymhwyster 90 marc. Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o'u crefydd ddewisol gan gwmpasu themâu'n amrywio o ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig i arferion sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol.

Uned 4: Crefydd a Moeseg. Ceir arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud sy'n 20% o'r cymhwyster 90 marc. Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o themâu moesegol sylfaenol, yn amrywio o iaith a meddylfryd moesegol i ewyllys rydd a phenderfyniaeth.

Uned 5: Athroniaeth Crefydd. Ceir arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud sy'n 20% o'r cymhwyster 90 marc. Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o themâu athronyddol sylfaenol, yn amrywio o ddadleuon dros fodolaeth Duw i'r defnydd o iaith grefyddol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Cyflwyniad i'r Astudiaeth o Grefydd | 15% | Mae dewis i astudio un grefydd o 6: Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth neu Sikhiaeth. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg | 25% | Adran A: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd<br>Adran B: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg | Arholiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Astudiaeth o Grefydd | 20% | Themâu: Unigolion crefyddol a thestunau sanctaidd; Datblygiad hanesyddol crefyddol; Datblygiad cymdeithasol arwyddocaol crefyddol; Arferion crefyddol sy'n llunio hunaniaeth grefyddol. | Arholiad allanol |
| **Uned 4** | Crefydd a Moeseg | 20% | Themâu: Iaith a syniadau moesegol; Damcaniaeth Foesol Kant; Datblygiadau cyfoes ym maes damcaniaeth foesegol; Ewyllys rhydd a phenderfyniaeth. | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Athroniaeth Crefydd | 20% | Themâu: Dadleuon ontolegol dros fodolaeth Duw; Sialensiau i gred grefyddol; Profiad crefyddol ac iaith grefyddol. | Arholiad allanol |

# Amaethyddiaeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu sylfaen addas ar gyfer astudio rheolaeth amaethyddol ac mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth reoli menter amaethyddol.

Bydd unedau a ddarperir yn rhoi cyfle i ddysgwyr brofi gweithgareddau fel cynllunio maeth anifeiliaid, rheoli triniaeth iechyd anifeiliaid, cynllunio busnes a rheoli glaswelltir tra hefyd yn datblygu sgiliau ymarferol i atgyfnerthu dealltwriaeth.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer dysgu blaenorol ond byddai astudio amaethyddiaeth i'r lefel TGAU yn fanteisiol.

Mae'n ddymunol bod dysgwyr wedi cyflawni graddau TGAU A-C mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

Ym mlwyddyn 12 a 13, bydd dysgwyr yn cwblhau 3 uned sy'n cael eu hasesu'n fewnol mewn nifer o aseiniadau fesul uned.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Uned 1: Deall Anatomeg a Ffisioleg Anifeiliaid (gorfodol) | 10 Credyd | Cyflwyniad i systemau'r corff a swyddogaeth organau. | Asesu'n fewnol |
| **Uned 2** | Uned 24: Deall a Gwneud Hwsmonaeth Da Byw Fferm. | 10 Credyd | Cyflwyniad i systemau da byw y DU a rheoli mentrau da byw. | Asesu'n fewnol |
| **Uned 3** | Uned 30: Deall Rheolaeth Tir Glas. | 10 Credyd | Gwahanol fathau o laswelltir a chadw gwair ar gyfer da byw. | Asesu'n fewnol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 4** | Uned 14: Cymryd rhan mewn Cynllunio a Gwella Busnes yn y Sector Tir. | 10 Credyd | Dadansoddi'n feirniadol fentrau presennol a chynhyrchu cynllun busnes ar gyfer busnes newydd. | Asesu'n fewnol |
| **Uned 5** | Uned 16: Deall Bridio a Maeth Da Byw. | 10 Credyd | Uned 17: Deall a Hyrwyddo Iechyd Anifeiliaid. | Asesu'n fewnol |
| **Uned 6** | Llunio cynllun bridio a dogn ar gyfer da byw. | 10 Credyd | Arsylwi, cynnal a rheoli iechyd mewn da byw. | Asesu'n fewnol |

# Bioleg

## Pam astudio'r pwnc?

Mae Bioleg yn darparu toreth eang o wybodaeth sy'n cyffwrdd â llawer o wahanol agweddau ar amrywiaeth o destunau. Mae'r rhain yn amrywio o adeiledd mewnol organebau mewn ffisioleg a rhyngddibyniaeth pethau byw mewn ecoleg, i faterion cymdeithasol gan gynnwys dylanwad dyn ar yr amgylchedd ac ystyriaethau moesegol geneteg.  Y bwriad yw y bydd defnyddio amrywiaeth o ymagweddau yn symbylu diddordeb, hyrwyddo dealltwriaeth ac ennyn gwerthfawrogiad cyffredinol ac ymdeimlad o ryfeddod ar y byd byw.  Y nodau bras felly yw:

- darparu sylfaen ffeithiol eang a sgiliau
- symbylu diddordeb yn y pwnc
- hwyluso gwerthfawrogiad beirniadol o faterion sy'n codi o'r pwnc.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio'r cwrs rhaid eich bod wedi ennill o leiaf gradd B naill ai mewn TGAU Bioleg neu mewn TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd. Mae hefyd o gymorth i astudio Cemeg i o leiaf lefel Uwch Gyfrannol.

## Cynnwys y cwrs?

Ym Mlwyddyn 12 astudir dwy uned o waith a thair uned ychwanegol ym Mlwyddyn 13.  Asesir pob uned trwy arholiad allanol yn unig.  Mae pob arholiad yn un ysgrifenedig ac yn amrywio rhwng 1½ awr a 2 awr o hyd.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Biocemeg sylfaenol a threfniadaeth celloedd | 20% | Adeiledd a swyddogaeth cyfansoddion ac ensymau biolegol; adeiledd sylfaenol celloedd a threfniadaeth; cellraniad; cellbilenni; cludiant pilenni. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Bioamrywiaeth, ffisioleg a systemau'r corff | 20% | Addasiadau ar gyfer cludiant a maeth a chyfnewid nwyon. | Arholiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Metabolaeth, Microbioleg a Homeostasis | 25% | Cyflenwadau egni mewn organebau byw, microbioleg a phoblogaethau; effaith dyn ar yr amgylchedd; homeostasis a'r system nerfol. | Arholiad allanol |
| **Uned 4** | Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiwn dewisol | 25% | Amrywiad ac esblygiad, geneteg a chymwysiadau geneteg. Afiechyd ac Imwnoleg yw'r uned opsiwn. | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Arholiad Ymarferol | 10% | Arholiad sy'n gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio dulliau rhagdybio, cynllunio, dadansoddi a gwerthuso. | Asesiad allanol |

# Busnes (BTEC)

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs yma wedi ei ddylunio i roi sail addas ar gyfer astudio Busnes, neu faes astudio cysylltiedig mewn addysg bellach neu uwch a /neu baratoad ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau busnes realistig. Wrth astudio gallwch feithrin sgiliau sydd eu hangen i lwyddo fel mentrwr, rheolwr neu gyflogai megis – ymchwilio, cyfathrebu, cydweithio, datrys problemau, dadansoddi a gwerthuso, cyflwyno gwybodaeth.

Mae astudio'r pwnc hefyd yn darparu cyfleoedd i chi i brofi gweithgareddau pwrpasol sy'n gysylltiedig a'ch maes dewisol, yn ogystal a chynnig cyfleoedd lle fyddwch yn ymwybodol o sut y gallwch gyfrannu i gymdeithas. Mae Busnes yn bwnc sy'n cyd-fynd gyda nifer o ddewisiadau pynciol eraill gan greu ymwybyddiaeth o berthnasedd y pwnc i fywydau pob dydd.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol: er y bydd rhai dysgwyr eisoes wedi astudio Astudiaethau Busnes ar gyfer TGAU. Disgwylir y bydd hwn yn faes pwnc newydd i lawer.

Mae'n ddymunol eich bod wedi ennill graddau A-C TGAU mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

## Cynnwys y cwrs?

Ym Mlwyddyn 12 a 13 astudir 4 uned o waith sy'n cael eu hasesu'n fewnol trwy waith cwrs ac yn allanol trwy arholiadau.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Archwilio Byd Busnes | 25% | Pwrpas gwahanol fusnesau, eu strwythur, effaith yr amgylchedd allanol, a sut mae angen iddynt fod yn ddynamig ac yn arloesol er mwyn goroesi. | Asesiad mewnol |
| **Uned 2** | Datblygu Ymgyrch Farchnata | 25% (gorfodol) | Ennill dealltwriaeth a sgiliau sy'n ymwneud â sut caiff ymgyrch farchnata ei datblygu. | Asesiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Cyllid Personol a Busnes | 34% | Pwrpas a phwysigrwydd cyllid personol a busnes. Byddant yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddeall, dadansoddi a pharatoi gwybodaeth ariannol. | Asesiad allanol |
| **1 Uned ddewisol** | | 16% | Amrywiaeth o unedau a phenderfynir ar y dewis yn ystod y cwrs. | Asesiad mewnol |

# Celf a Dylunio

## Pam astudio'r pwnc?

Mae dewis astudio Celf a Dylunio yn golygu llawer fwy na thynnu lluniau neu eich gallu i fraslunio'n dda. Mae'r pwnc yn ymdrin a datblygu ystod eang o sgiliau a thechnegau, fel eich bod yn cynhyrchu portffolio o waith gwreiddiol a chreadigol trwy gydol y ddwy flynedd a fydd yn arwain at ddilyn cwrs sylfaen neu cwrs radd o bosib. Mae gan Gelf a Dylunio agweddau amrywiol ynddo o'r traddodiadol i'r cyfoes a fydd yn eich helpu i droi eich angerdd creadigol yn yrfa neu yn swydd. P'un a ydych am fod y Leonardo da Vinci nesaf neu yn bensaer neu efallai yn ddylunydd ffasiwn i H&M, bydd y pwnc yn eich helpu i wella'ch sgiliau a dilyn eich breuddwyd yn y maes creadigol. Mae myfyrwyr Celf a Dylunio yn gorfod gweithio'n annibynnol gan feddwl y tu allan i'r bocs a hynny drwy fod yn hynod entrepreneuraidd a hunan-ysgogol, dwy rinwedd rydych chi'n eu dysgu ar eich taith i ddod yn arlunydd. Nid yw cymhwyster mewn Celf a Dylunio yn ymwneud â phensiliau a lluniau yn unig, byddwch hefyd yn dysgu popeth am ochr cyd-destunol drwy astudio arlunwyr, dylunwyr a chrefftwyr sy'n hanfodol wrth ddatblygu eich syniadau. P'un a ydych am astudio Celf a Dylunio yn y brifysgol, neu fentro i gwrs sylfaen gyntaf, dyma ychydig opsiynau i'ch helpu i benderfynu pa agwedd o'r pwnc y gellir arbenigo ynddo:

Gall dysgwyr archwilio meysydd sy'n gorgyffwrdd â/neu gyfuniadau o ddisgyblaethau o'r meysydd isod:

- Celf, Chrefft a Dylunio - mae'r teitl hwn yn hybu dysgu drwy amryw brofiadau a thrwy roi cyfle i ddefnyddio amryfal brosesau, offer, technegau, defnyddiau ac adnoddau i gynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth o ddulliau gweithio a chanlyniadau.
- Celfyddyd Gain – peintio, braslunio, cerflunio, ffilm a pherfformio a chreu printiau.
- Dylunio Tecstilau – ffasiwn, gwnïo a gwau, dylunio mewnol, costiwm a dylunio gwisgoedd.
- Cyfathrebu Graffig – animeiddio, hysbysebu, brandio a marchnata, darlunio, golygu a dylunio llyfr.
- Dylunio Tri Dimensiwn – serameg, modelu a 3D, pensaernïaeth, dylunio set, cerflunio, gemwaith.
- Ffotograffiaeth a ffilm – delwedd digidol o bob math, delwedd symudol fel ffilm ac animeiddio,

Yn sylfaenol i bob agwedd mae'r gallu i arloesi, i addasu ac i weithio'n annibynnol, ac mae addysg uwch a chyflogwyr erbyn hyn yn ei werthfawrogi.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwyr:

- Naill ai fod wedi dilyn cwrs TGAU Celf a Dylunio ac wedi cael o leiaf Gradd C.
- Neu fod wedi creu portffolio o waith enghreifftiol.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn seiliedig ar ddewis testun neu themâu sy'n bersonol ac yn berthnasol i gryfderau a diddordebau'r unigolyn, ac ar gychwyn yr unedau bydd sgwrs ddwys rhwng yr unigolyn a'r athro er mwyn penderfynu ar yr opsiwn orau.  Pa bynnag bwnc neu deitl a ddilynir, mae'r cwrs yn annog creadigedd, ymchwil a dadansoddi cynhaliol, arbrofi, dylunio a gwneud fel dulliau o feithrin sgiliau technegol a mynegiannol. Mae'n rhoi cyfle i ddilyn rhaglen astudio sy'n estyn profiad ac ymateb personol yn ogystal â meithrin dychymyg a meddwl beirniadol a myfyriol.  Yn y gwersi rhoddir pwyslais ar ddatblygu amrywiaeth o waith arbrofol gyda chymharu cyd-destunau traddodiad o'r gorffennol ynghyd a rhai mwy cyfoes.

Ar ddiwedd yr unedau bydd pob disgybl yn gyfrifol am arddangos eu gwaith terfynol ar gyfer yr asesu mewnol a safoni allanol gan CBAC.

## Sut asesir y cwrs?

Mae pedwar amcan asesu sy'n berthnasol i'r unedau UG ac U2.

**AA1** – Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.
**AA2** – Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.
**AA3** – Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar waith a chynnydd.
**AA4** – Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau, a, lle y bo'n briodol gwneud hynny, gwneud cysylltiad rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.

Mae'r cwrs wedi'i rhannu'n gyfanswm o 3 uned, 1 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1**<br><br>**(Gwaith Cwrs)** | Ymholiad Creadigol Personol | 160 marc<br><br>40% o'r cymhwyster | Prosiect/Portffolio gyda darn neu ddarnau terfynol ar thema bersonol, fydd yn integreiddio theori gyda gwaith ymarferol. | Asesiad mewnol<br><br>Safoni Allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 2**<br><br>**(Gwaith Cwrs)** | Ymchwiliad Personol | 160 marc<br><br>36% o'r cymhwyster | **Rhan 1**: Ymchwiliad ymarferol yn seiliedig ar themâu personol.<br><br>**Rhan 2:** Ysgrifennu estynedig sy'n cyfuno delweddau a thestun sy'n berthnasol i'r rhan gyntaf. | Asesiad mewnol<br><br>Safoni Allanol |
| **Uned 3** | Arholiad | 100 marc<br><br>24% o'r cymhwyster | **Gwaith Paratoi:** Llyfrau braslunio neu/a phortffolio o waith.<br><br>**Darn Terfynol:** O dan amodau arholiad yn yr adran Gelf. | Asesiad mewnol<br><br>Safoni Allanol |

# Cemeg

## Pam astudio'r pwnc?

Weithiau cyfeirir at Gemeg fel y 'gwyddoniaeth ganolog' gan mai Cemeg sy'n cysylltu'r wyddoniaeth ffisegol fel Mathemateg a Ffiseg â'r wyddoniaeth gymhwysol fel Bioleg, Meddygaeth a Pheirianneg. Mae Cemeg o hyd "o'n hamgylch ni" ac mae ein dealltwriaeth o'r pwnc yn ein helpu i ateb nifer o gwestiynau syml am fywyd bob dydd! Mae Cemeg yn wyddoniaeth sy'n sail i gymdeithas. Mae'n bwysig ymhob agwedd o'n bywydau – o'r feddyginiaeth a ddefnyddiwn i'r gwrteithiau a ddefnyddiwn ar y tir i wneud y cynnyrch gorau o'r cnydau.

Cemeg yw un o bynciau hwyluso (*facilitating subjects*) prifysgolion Grŵp Russell. Gelwir yn bwnc hwyluso gan fod dewis Cemeg ar gyfer Lefel A yn agor nifer o ddrysau gwahanol ar gyfer astudiaethau graddedig. Yn naturiol mae'n gam pendant tuag ar radd mewn Cemeg, Fferylliaeth, Meddygaeth, Milfeddygaeth, Deintyddiaeth, Peirianneg, Gwyddorau Bioleg a Biocemeg ond mae hefyd yn sylfaen dda ar gyfer nifer o gyrsiau eraill oherwydd ei ddisgyblaeth resymegol.

Gan fod Cemeg yn bwnc gwyddonol mae'r broses o ddysgu yn eich helpu i fod yn wrthrychol, dadansoddol a threfnus, ac o ganlyniad gallwch ddatrys problemau yn hyderus. Gallwch gymhwyso'r sgiliau yma tu allan i academia, ac mae astudio Cemeg yn ein helpu i ddeall materion cyfoes megis newyddion am betrol, problemau amgylcheddol, materion iechyd a mwy.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio'r cwrs rhaid eich bod wedi ennill o leiaf gradd B naill ai mewn TGAU Cemeg neu mewn TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd) a gradd B mewn TGAU Mathemateg. Mae hefyd o gymorth i astudio Bioleg/Ffiseg/Mathemateg i o leiaf lefel Uwch Gyfrannol.

## Cynnwys y cwrs?

Yn ystod y flwyddyn gyntaf byddwch yn ymchwilio i ddeall strwythur atomau yn ogystal â'r cyfrifiadau sy'n ein galluogi i benderfynu ar gynnyrch disgwyliedig o adweithiau cemegol. Yn ogystal, byddwch yn edrych ar adweithiau cildroadwy a strwythurau solidau. Bydd newidiadau egni mewn adweithiau yn cael eu hastudio yn ogystal â'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau prosesau cemegol. Mae'r ail uned hefyd yn cyflwyno cemeg organig (carbon) a sbectrosgopeg. Yn ystod uned 3 (blwyddyn 13) bydd y tabl cyfnodol yn cael ei astudio'n fanylach. Bydd cemeg yr Elfennau Trosiannol a Grwpiau III, IV a VII yn cael eu harchwilio. Mae creu potensialau trydanol rhwng dwy elfen wahanol yn cael ei archwilio'n fanwl, ynghyd ag astudiaethau pellach o'r newid egni sy'n digwydd yn ystod adweithiau. Yn olaf, bydd astudiaeth o'r ffordd y gall canlyniadau arbrofol arwain at benderfyniad manwl o'r prosesau sy'n digwydd yn ystod adwaith. Gan adeiladu ar waith blwyddyn 12, bydd ail uned 4 yn archwilio ystod eang o ddosbarthiadau o gemegau organig a'u hadweithiau nodweddiadol. Bydd dulliau dadansoddi a phriodweddau arbennig i rywogaethau organig penodol yn cael eu hastudio hefyd.

Mae gwaith ymarferol yn rhan hanfodol o faes Cemeg. Bydd eich sgiliau ymarferol yn cael eu datblygu yn ystod y cwrs a bydd dull ymchwiliol yn cael ei hybu hefyd pryd bynnag y bo'n bosibl. Bydd yr arholiad ymarferol yn rhoi cyfle i chi arddangos eich sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â thechnegau ymarferol a'ch gallu i ddadansoddi a gwerthuso data arbrofi.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Adeiledd Mater ac adweithiau syml | 20% | Yr Atom, Cyfrifon y môl, Bondio, Adeiledd solidau, Ecwilibria a'r Tabl Cyfnodol. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Egni, Cyfradd a Chemeg cyfansoddion Carbon | 20% | Cemeg organig gan gynnwys hydrocarbonau, halogenoalcanau, alcoholau, thermocemeg a chyfraddau adweithio. | Arholiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Cemeg Ffisegol ac Anorganig | 25% | Datblygu syniadau rhydocs, cineteg gemegol, newidiadau egni, entropi ac ecwilibria.<br>Astudio adrannau'r Tabl Cyfnodol. | Arholiad allanol |
| **Uned 4** | Cemeg Organig a dadansoddi | 25% | Diddwytho adeiledd, synthesis cyfansoddion organig a'r defnydd ohonynt. | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Cemeg Ymarferol | 10% | Gwaith ymarferol yn seiliedig ar wybodaeth cwrs llawn Lefel A Cemeg. | Arholiad ymarferol (3 awr) ac arholiad ysgrifenedig (1 awr). |

# Cerddoriaeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch (A2) yn seiliedig ar waith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso. Dyma gyfle i fwynhau cwrs cynhwysfawr a difyr sy'n datblygu eich sgiliau ymarferol ynghyd â'ch sgiliau gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth gymhleth. Mae Cerddoriaeth yn cael ei gydnabod fel pwnc sy'n datblygu sgiliau i brosesu gwybodaeth yn gyflymach a chynnig datrysiadau creadigol i amrywiaeth o sefyllfaoedd. Nid yn unig mae'r trawsdoriad o sgiliau a'r ddisgyblaeth a ddatblygir yn werthfawr ar gyfer swyddi yn ymwneud â maes Cerddoriaeth, mae'r hunan-ddisgyblaeth, y sgiliau tîm a'r rheoli amser angenrheidiol sydd ynghlwm wrth Gerddoriaeth yn sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer pob math o swyddi eraill.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Naill ai gradd C yng Ngherddoriaeth TGAU neu gradd 5 theori Cerdd.

## Cynnwys y cwrs?

Astudir amrywiaeth o weithiau gosod ym Ml.12 ac ym Ml.13 a fydd yn datblygu eich sgiliau gwerthuso, dadansoddi a'ch gallu i osod gwaith mewn cyd-destun hanesyddol. Cewch gyfle hefyd i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi ar gyfer paratoi ffolio, yn ogystal â'ch sgiliau perfformio ar gyfer paratoi rhaglen ymarferol.

**Gweithgareddau allgyrsiol**:

Rhoddir cyfoeth o brofiadau i chi gan gynnwys cyfleoedd i berfformio yn rheolaidd mewn cyngherddau, nosweithiau adloniannol, sioeau cerdd a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a'r Ŵyl Gerdd Dant. Trefnir teithiau yn flynyddol i weld sioe gerdd, ac fe fydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy cyfansoddi gyda chyfansoddwr preswyl.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Perfformio | 12% | Perfformiad unigol a/ neu grŵp o ddau ddarn (6 – 8 munud) | Arholwr Allanol |
| **Uned 2** | Cyfansoddi | 12% | Dylid cyflwyno ffolio o 2 gyfansoddiad. Y ffolio cyfan i fod rhwng 3 a 6 munud:<br>• 1 cyfansoddiad yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC gan ddefnyddio technegau a chonfensiynau Traddodiad Clasurol y Gorllewin sy'n para o leiaf 1 munud<br>• 1 cyfansoddiad rhydd y mae'r dysgwr yn gosod ei briff ei hunan ar ei gyfer ac sy'n para o leiaf 2 funud | Asesiad allanol |
| **Uned 3** | Gwerthuso | 16% | Arholiad yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) a gymerwyd o ddau faes astudio. | Papur Arholiad 1½ awr |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

***Mae cyfle fan hyn i ddewis astudiaeth ychwanegol yn hoff uned y disgybl, gyda phwysoli'r marciau felly yn drymach ar yr uned honno***

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Perfformio | A = 22%<br>B = 14% | Naill ai A: Perfformiad o 10 – 12 munud; 2 ddarn<br>neu B: Rhaglen o 6 – 8 munud; 2 ddarn. | Arholwr Allanol |
| **Uned 4** | Cyfansoddi | A = 22%<br>B = 14% | Naill ai A: Ffolio o 2 gyfansoddiad i bara rhwng 3 – 6 munud<br>neu B: Ffolio o 3 cyfansoddiad i bara 5 – 9 munud. | Asesiad Allanol |
| **Uned 5** | Gwerthuso | 24% | Arholiad yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) a gymerwyd o'r ddau faes astudio a ddewiswyd. | Papur Arholiad 2¼ awr |

# Cymraeg (Iaith Gyntaf)

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn seiliedig ar astudiaeth o iaith, llenyddiaeth a llunyddiaeth. Dyma gyfle gwych i fwynhau cwrs cynhwysfawr a hwylus sy'n datblygu eich sgiliau llafar ac ysgrifenedig a'ch hybu i ddadansoddi a chyfathrebu. Heb os mae astudio'r Gymraeg yn gymorth mawr i'r pynciau eraill a astudir yn y Chweched dosbarth. Mae'r trawsdoriad o sgiliau a ddatblygir yn werthfawr iawn ar gyfer pob math o swydd. Os dymunwch ddilyn gyrfa mewn newyddiaduraeth neu yn y Cyfryngau; yn y llywodraeth leol neu'r Cynulliad; ym myd cysylltiadau cyhoeddus neu addysgu, dyma'r pwnc i chi. Dewch i fwynhau astudio cwrs academaidd, defnyddiol, mewn adran hynod lwyddiannus.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae angen o leiaf dwy radd C Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Byddai profiad o astudio'r Gymraeg ar Haen Uwch o fantais.

## Cynnwys y cwrs?

Yn ystod y cwrs cewch gyfle i drafod ac astudio amrywiaeth o destunau difyr.

Ym Mlwyddyn 12 astudir y ffilm adnabyddus "Hedd Wyn" gan Alan Llwyd a'r ddrama glasurol "Siwan" gan Saunders Lewis ar gyfer trafodaeth lafar. Rhoddir hefyd y cyfle i chi ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol ar gyfer eich gwaith cwrs. Cewch astudio casgliad o farddoniaeth yr 20fed a'r 21ain Ganrif. Yn ogystal canolbwyntir ar godi safon eich cywirdeb ieithyddol cyn sefyll un arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Ym Mlwyddyn 13 astudir y nofel lwyddiannus "Martha, Jac a Sianco" gan Caryl Lewis ar gyfer trafodaeth lafar. Disgwylir i chi astudio'r chwedl "Branwen" a chasgliad bach o gerddi Cymraeg cynnar. Cewch feithrin a datblygu sgiliau gwerthfawrogi a chanolbwyntio ar ffurfiau ysgrifenedig cyfoes, addas a defnyddiol iawn ar gyfer y byd gwaith. Bydd dau bapur arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y cwrs.

Yn yr Adran Gymraeg cewch brofiadau allgyrsiol hynod gyfoethog. Bydd cyfle i fentora disgyblion iau yr ysgol. Trefnir taith lenyddol i'r Gogledd, gweithdai ysgrifennu creadigol a newyddiaduraeth gan feirdd a llenorion poblogaidd Cymru. Ymwelir â phrifysgolion i wrando ar ddarlithoedd. Mae'r adran hefyd yn cystadlu'n frwd yng nghystadlaethau'r Urdd, Eisteddfodau lleol a Thalwrn y Beirdd. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd!

## Sut asesir y cwrs?

Byddwch yn sefyll un papur arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd Blwyddyn 12 a dau bapur arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd blwyddyn 13.

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd | 15% | Trafod dau destun, un ffilm ac un ddrama. | Asesiad llafar allanol |
| **Uned 2** | Ffolio o waith cwrs ysgrifenedig | 10% | Cwblhau dwy dasg: ysgrifennu creadigol a mynegi barn. | Asesiad mewnol o waith cwrs |
| **Uned 3** | Defnyddio Iaith a Barddoniaeth | 15% | Ymarferion iaith a thraethawd ar y cerddi gosod. | Asesiad allanol |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 4** | Y Nofel a Llafaredd | 20% | Trafod nofel | Arholiad llafar allanol |
| **Uned 5** | Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau | 20% | Astudio Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, Yr Hengerdd a'r Cywyddau. | Asesiad allanol |
| **Uned 6** | Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun | 20% | Gwerthfawrogi rhyddiaith neu farddoniaeth, ysgrifennu darn ar ffurf benodol. | Asesiad allanol |

# Daearyddiaeth

## Pam astudio'r pwnc?

"Daearyddiaeth yw'r pwnc sy'n dal allwedd ein dyfodol." Michael Palin.

Mae Daearyddiaeth yn bwnc sy'n eich galluogi i:

- ddeall yr amgylchedd ar raddfa leol a bydol
- adnabod eich byd trwy waith maes
- gwneud penderfyniadau doeth sy'n cydbwyso pryderon amgylchedd a datblygiadol
- datblygu amrediad eang o sgiliau sy'n cyflwyno dadleuon neu ysgrifennu adroddiadau yn seiliedig ar waith ymchwil
- deall diwylliannau eraill yng Nghymru, Ewrop ac ar draws y byd.

Caiff Daearyddiaeth ei ystyried yn bwnc hwyluso gan Brifysgolion, sy'n agor drysau nifer o gyrsiau mewn amrywiaeth o feysydd.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Alla i ddilyn y cwrs Daearyddiaeth? Pam lai? Os ydych chi wedi dilyn y cwrs TGAU Daearyddiaeth yna rydych yn ymgeisydd amlwg i fod yn ystyried astudio Daearyddiaeth Safon Uwch.

Beth os nad ydych wedi dilyn y cwrs Daearyddiaeth TGAU? Os oes diddordeb gennych mewn themâu daearyddol a materion cyfoes, yna mae'r potensial gennych i astudio'r pwnc. Trafodwch eich diddordeb gydag athro neu athrawes Ddaearyddiaeth fydd yn eich cynghori ar ba mor ddoeth ydy hi i chi ddilyn y cwrs Safon Uwch. Mae Daearyddiaeth Safon Uwch yn gymhwyster sydd wedi profi i fod yn hynod ddefnyddiol i ddisgyblion sydd wedi symud ymlaen i amrywiaeth o lwybrau gyrfa.

## Cynnwys y cwrs?

Dros gyfnod o ddwy flynedd byddwch yn cael y cyfle i astudio amrywiaeth eang o themâu megis Tirweddau sy'n Newid, Peryglon Tectonig, Cylchredau Dŵr a Charbon, Newid a Heriau'r 21ain Ganrif ac ati. Mae astudio'r themâu hyn yn allweddol i'n dealltwriaeth o'n gorffennol, presennol a'n dyfodol. Yn ystod y cwrs cewch gyfle hefyd i adael yr ystafell ddosbarth i gwblhau ymchwiliad gwaith maes a chymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun trwy ymgymryd ag ymchwiliad annibynnol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Tirweddau sy'n Newid | 24% | Adran A: Tirweddau sy'n Newid<br>Adran B: Peryglon Tectonig | Asesiad allanol |
| **Uned 2** | Lleoedd sy'n newid | 16% | Adran A: Lleoedd sy'n Newid<br>Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol | Asesiad allanol |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd Eang | 24% | Adran A: Systemau Byd-eang<br>Adran B: Rheolaeth Fyd-eang: Newid a Heriau<br>Adran C: Heriau'r 21ain Ganrif | Arholiad ysgrifenedig<br>2 awr. |
| **Uned 4** | Themau Cyfoes mewn Daearyddiaeth | 16% | Adran A: Peryglon Tectonig<br>Adran B: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth | Arholiad ysgrifenedig<br>2 awr. |
| **Uned 5** | Ymchwiliad annibynnol | 20% | Un ymchwiliad annibynnol ysgrifenedig, wedi'i seilio ar gasglu data cynradd a gwybodaeth eilaidd. | Asesiad heb arholiad:<br>3000-4000 gair |

# Drama ac Astudiaethau'r Theatr

## Pam astudio'r pwnc?

Mae ein cwrs UG/Safon Uwch Drama ac Astudiaethau Theatr yn gwrs cyffrous ac ysbrydoledig sy'n eich paratoi ar gyfer astudio pellach mewn Addysg Uwch. Mae'r fanyleb ymarferol hon yn rhoi cyfle i chi weithio naill ai fel perfformwyr a/ neu ddylunwyr ar dri pherfformiad gwahanol.

Mae'r cwrs astudio ymarferol a heriol hwn yn annog dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso fframwaith hyddysg, dadansoddol ar gyfer gwneud, perfformio, dehongli a deall drama a theatr.

Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o rôl ymchwil damcaniaethol perthnasol wrth lywio'r prosesau a'r arferion sy'n rhan o greu theatr a rôl archwilio ymarferol wrth lywio gwybodaeth ddamcaniaethol o ddrama a theatr.

Mae'r pwnc yn cynnig sylfaen gadarn am astudiaeth bellach yn y Celfyddydau ac yn gaffaeliad i'r rhai sydd eisiau dilyn gyrfa yn y Theatr neu ar Deledu. Gall y pwnc hwn arwain at unrhyw yrfa sy'n ymdrin â phobl. Gallwch fynd yn Actor, Cyfreithiwr, Therapydd Drama, Athro, Cyflwynydd, Ymchwilydd, Cynllunydd set a gwisgoedd yn ogystal a'r ochr dechnegol gyda goleuo a sain.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r cwrs Safon Uwch yn agored i unrhyw fyfyriwr. Er yn fanteisiol i gael TGAU yn y pwnc, nid yw'n angenrheidiol. Mae sgiliau ieithyddol da yn hwyluso'r elfen ysgrifenedig.

## Cynnwys y cwrs?

Byddwch yn:

- cael y cyfle i ddatblygu diddordeb a mwynhad mewn drama a theatr fel perfformiwr ac aelod gwybodus o gynulleidfa.
- datblygu eich dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o arwyddocâd dylanwadau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol ar ddatblygiad drama a'r theatr.
- derbyn nifer o gyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau dramatig a theatraidd ac yn datblygu'r gallu i weithio'n greadigol a chydweithio i gyrraedd bwriadau dramatig ar y cyd.
- datblygu a defnyddio theorïau ac ymarfer trwy ddealltwriaeth o gysyniadau beirniadol a defnydd o derminoleg y pwnc.
- astudio damcaniaethau Arloeswyr Drama, eu defnyddio mewn gwersi ac mewn perfformiadau byw.
- astudio dramâu cyfoes a hanesyddol gan ddadansoddi'r dramâu hynny yn barod ar gyfer arholiadau ysgrifenedig.
- cael cyfleoedd i wylio amrywiaeth o berfformiadau byw gan ddatblygu sgiliau ysgrifennu adolygiadau.
- datblygu eich sgiliau sgriptio a chreu gwaith dyfeisiedig.
- cael amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol i ymweld â'r theatr, mynychu gweithdai er mwyn datblygu sgiliau perfformio a'u defnyddio yn eich gwaith.
- datblygu sgiliau technegol (goleuadau, sain) a chynllunio (gwisgoedd, set) yn lle perfformio.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Gweithdy Theatr | 24% | Uned ymarferol – Actio neu Ddylunio. Byddwch yn creu, datblygu a pherfformio darn o theatr wedi'i seilio ar ailddehongli darn o destun a ddewisir gan CBAC. Rhaid datblygu'r darn hwn gan ddefnyddio technegau a dulliau gweithio naill ai ymarferwr theatr dylanwadol neu gwmni theatr cydnabyddedig. Byddwch yn llunio gwireddiad o'r perfformiad neu'r dyluniad trwy greu log creadigol – gwerthusiad. | Arholiad Ymarferol a Gwaith Cwrs ysgrifenedig. Asesiad di-arholiad: asesu mewnol, safoni allanol. |
| **Uned 2** | Testun mewn Theatr | 16% | Papur arholiad. Byddwch yn ateb 3 cwestiwn, drama cyn ac ar ôl 1900 ac adolygiad theatr fyw. Bydd cyfres o gwestiynau wedi'u seilio ar un o'r rhestr ganlynol: Dros Bont Brooklyn, Miller, Medea, Euripides Comedy of Errors, Shakespeare An Enemy of the People, Ibsen Ubu Roi, Jarry. | Arholiad ysgrifenedig llyfr agored: 1 awr 30 munud |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Testun ar waith | 36% | Disgwylir i chi baratoi dau berfformiad, un ar ddrama gyhoeddedig a'r llall yn waith gwreiddiol ar destun gosod. Byddwch yn cael eich asesu naill ai ar actio neu ddylunio. Bydd un darn dyfeisiedig yn defnyddio technegau a dulliau gweithio naill ai ymarferwr theatr dylanwadol neu gwmni theatr cydnabyddedig a'r ail ddarn yn ddetholiad o destun 'ag arddull gyferbyniol. Byddwch yn llunio adroddiad proses a gwerthuso o fewn un wythnos i gwblhau'r gwaith ymarferol. | Perfformiad Ymarferol a Gwerthusiad Ysgrifenedig. Asesiad di-arholiad. |
| **Uned 4** | Testun mewn perfformiad | 24% | Bydd dau gwestiwn, wedi'u seilio ar ddau destun gwahanol o'r rhestr ganlynol:<br>A Day in the Death of Joe Egg (Nichols)<br>Sweeney Todd (Sondheim);<br>The Absence of War (Hare, Mametz, Sheers);<br>The Radicalisation of Bradley Manning (Price);<br>Un Nos Ola Leuad (addasiad Bara Caws). | Arholiad allanol llyfr agored 2 awr o hyd yn seiliedig ar ddwy ddrama osod, un cyn ac ar ôl 1900. |

# Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch

## Pam astudio'r pwnc?

Mae pob cynnyrch rydym wedi ei brynu, o chwaraewyr MP3 i'r cadeiriau rydym yn eistedd arnynt, wedi eu cynllunio i edrych a gweithio mewn ffordd arbennig. Ar y cwrs yma byddwch yn dysgu sut i ddylunio a datblygu cynhyrchion deniadol a defnyddiol. Byddwch yn datblygu sgiliau gweledol, cynhyrchu prototeip, a dylunio trwy gymorth cyfrifiadur. Byddwch yn dysgu am ddefnyddiau a dulliau cynhyrchu trwy gwblhau tasgau ymarferol dylunio a gwneud. Gallai'r cwrs eich arwain i amrediad eang o yrfaoedd cyffrous. Gallech ddatblygu gyrfa mewn dylunio cynhyrchion electroneg, neu fecanyddol. Beth am raffigwaith cyfrifiadurol? Efallai byddai dylunio trwy gymorth cyfrifiadur ar gyfer diwydiant yn apelio. Gallai'r cwrs yma arwain i yrfaoedd tebyg i waith pensaer, dysgu, gwaith diwydiannol, marchnata neu beirianneg.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Disgwylir i fyfyrwyr fod wedi ennill gradd B o leiaf mewn Dylunio Cynnyrch ar lefel TGAU er mwyn cael eu derbyn ar y cwrs. Er hynny gall disgyblion sydd ddim wedi astudio'r pwnc ar lefel TGAU ond sydd wedi dangos gallu mewn pynciau cyfatebol cael eu derbyn ar y cwrs.

## Cynnwys y cwrs?

Mae cwrs mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw i ymgeiswyr ddarganfod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn ymwneud â'u diddordebau personol. Cwrs ymarferol yw Dylunio a Thechnoleg. Trwy gwblhau prosiectau dylunio a gwneud byddwch yn dysgu am dechnegau dylunio, ffurf a swyddogaeth, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu. Byddwch yn ymarfer technegau dylunio 2D, 3D a chyfrifiadurol. Byddwch yn defnyddio offer a pheiriannau i gynhyrchu'r syniad terfynol. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ymweld ag arddangosfeydd o waith dylunwyr arloesol.

## Sut asesir y cwrs?

Byddwch yn eistedd y Safon Uwch Dylunio Cynnyrch gydag CBAC yn eich blwyddyn Lefel UG, byddwch yn sefyll un arholiad a chreu un darn o waith cwrs. Mae'r un stwythur yn cael ei ail-adrodd ym mlwyddyn 13 gyda chynnwys gwahanol:

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Papur Arholiad Dylunio Cynnyrch | 20% | Dylunio ac arloesi. dadansoddi cynnyrch, defnyddiau a chydrannau, ac arfer diwydiannol a masnachol. | Asesiad Allanol |
| **Uned 2** | Tasg Dylunio a Gwneud | 20% | Bydd yr ymgeiswyr yn cyflwyno un dasg dylunio a gwneud. | Marcio mewnol a safoni allanol |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Papur Arholiad<br>Dylunio Cynnyrch | 30% | Cyfrifoldeb dynol.<br>Rhyngweithiad cyhoeddus.<br>Prosesau.<br>Systemau cynhyrchu a rheolaeth. | Asesiad Allanol |
| **Uned 4** | Prif Broject<br>Dylunio a Gwneud | 30% | Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd ag un prosiect sylweddol. Bob blwyddyn bydd CBAC yn gosod wyth thema ar gyfer y prosiect, er y gall yr ymgeiswyr hefyd gyflwyno eu cynigion eu hunain i'w cymeradwyo. | Marcio mewnol a safoni allanol |

# Electroneg

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Electroneg yn mynd i agor llawer o ddrysau ar eich cyfer ac yn addas iawn at ddilyn gyrfa mewn nifer fawr o feysydd gwahanol:

- peirianneg trydanol
- swyddi trydanwyr
- cyfrifiaduron
- diwydiant electroneg.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Byddai angen o leiaf gradd B TGAU mewn Gwyddoniaeth Trifflyg neu ddwbl a B mewn TGAU Mathemateg.

## Cynnwys y cwrs?

Defnyddir amrywiaeth o dasgau a sgiliau wrth astudio'r pwnc:

- gwaith ymarferol
- datrys problemau
- sgiliau mathemategol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12/13

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Theori Electroneg | 40% | Cydrannau lled-ddargludyddion, systemau rhesymeg, mwyhaduron gweithredol, trawsnewid signalau, cylchedau CE a hidlyddion goddefol, systemau cyfathrebu, trawsyrru di-wifr, systemau offeryniaeth. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Defnydd Electroneg | 40% | Cylchedau amseru, Systemau rhesymeg dilyniannol, Microreolyddion, Cyfathrebu digidol, Cyfathrebu optegol, Systemau pŵer prif, cyflenwad systemau, switsio pŵer uchel, Systemau sain. | Arholiad allanol |
| **Uned 3** | Dylunio Systemau | 20% | Dylunio a chynhyrchu system microreolydd i ddatrys problem. Dylunio a gwireddu integredig sylweddol i greu system electroneg i ddatrys problem. | Asesiad mewnol |

# Ffiseg

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Ffiseg ar Safon Uwch yn ddewis ardderchog oherwydd ei fod yn eich helpu i ddeall yr egwyddorion sylfaenol sy'n esbonio sut mae'r bydysawd yn gweithio - o'r gronynnau lleiaf i ehangder y gofod. Mae'n datblygu sgiliau dadansoddol, mathemategol a datrys problemau cryf sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr mewn ystod eang o yrfaoedd, nid yn unig mewn gwyddoniaeth a pheirianneg ond hefyd mewn meysydd fel cyllid, meddygaeth a thechnoleg.
Mae ffiseg yn annog meddwl rhesymegol, creadigrwydd a chwilfrydedd, gan eich galluogi i archwilio sut mae theori yn cysylltu â chymwysiadau byd go iawn. Yn gyffredinol, mae Ffiseg Safon Uwch nid yn unig yn dyfnhau eich dealltwriaeth wyddonol ond hefyd yn agor y drws i lawer o gyfleoedd cyffrous a gwerth chweil yn y dyfodol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn astudio Ffiseg UG neu Safon Uwch, bydd angen o leiaf gradd B mewn Ffiseg TGAU (neu Wyddoniaeth Dwyradd) a gradd B mewn Mathemateg TGAU. Mae'n fuddiol i astudio Mathemateg Safon Uwch ochr yn ochr â Ffiseg.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro'n **ddwy uned UG** a **thair uned Safon Uwch**, sy'n ffurfio'r cymhwyster Safon Uwch llawn. Ar lefel UG, mae myfyrwyr yn dechrau trwy astudio pynciau fel *Mudiant, Egni a Mater* (Uned 1) - sy'n cwmpasu ffiseg sylfaenol, cinemateg, dynameg, cysyniadau egni, solidau dan ddiriant, defnyddio pelydriad i ymchwilio i sêr a gronynnau ac adeiledd niwclear. Yna, mae *Trydan a Golau* (Uned 2), yn cynnwys dargludiad trydan, gwrthiant, cylchedau C.U., natur tonnau, priodweddau tonnau, plygiant golau, ffotonau, laserau.

Ar lefel Safon Uwch, mae'r cwrs yn adeiladu ymhellach o ran dyfnder ac ehangder, gan ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr integreiddio eu dealltwriaeth o bob rhan o'r cwrs cyfan. Mae myfyrwyr yn astudio *Osgiliadau a Niwclysau* (Uned 3), sy'n cynnwys mudiant cylchol, dirgryniadau, damcaniaeth ginetig, ffiseg thermol, dadfeiliad niwclear ac egni niwclear. Yn *Meysydd ac Opsiynau* (Uned 4), mae dysgwyr yn astudio cynhwysiant, meysydd grym electrostatig a meysydd disgyrchiant, orbitau a'r bydysawd ehangach, meysydd magnetig, anwythiad electromagnetig yn ogystal â'r opsiwn "ffiseg chwaraeon".

Mae'r *Arholiad Ymarferol* (Uned 5) yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau arbrofol, ymchwiliol a dadansoddol trwy wneud arbrawf a thasg ddadansoddi ymarferol. Mae gwaith ymarferol yn rhan annatod o'r fanyleb, gyda myfyrwyr yn cael eu hannog i gynllunio, cynnal a gwerthuso arbrofion yn annibynnol. Mae cymhwysedd mathemategol hefyd yn elfen allweddol o'r cwrs, gyda sgiliau fel trin algebra, defnyddio unedau a dimensiynau, dadansoddi graffiau, a thrin ffigurau arwyddocaol yn hanfodol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Mudiant, Egni a Mater | 20% | Ffiseg sylfaenol, cinemateg, dynameg, cysyniadau egni, solidau dan ddiriant, defnyddio pelydriad i ymchwilio i sêr, gronynnau ac adeiledd niwclear. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Trydan a Golau | 20% | Dargludiad trydan, gwrthiant, cylchedau cerrynt union, natur tonnau, priodweddau tonnau, plygiant golau, ffotonau, laserau. | Arholiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Safon Uwch)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Osgiliadau a Niwclysau | 25% | Mudiant cylchol, dirgryniadau, damcaniaeth ginetig, ffiseg thermol, dadfeiliad niwclear, egni niwclear. | Arholiad allanol |
| **Uned 4** | Meysydd ac Opsiynau | 25% | Cynhwysiant, meysydd grym electrostatig a meysydd disgyrchiant, orbitau a’r bydysawd ehangach, meysydd magnetig, anwythiad electromagnetig a'r opsiwn - ffiseg chwaraeon. | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Arholiad ymarferol | 10% | Tasg arbrofi yn ogystal a thasg dadansoddi ymarferol yn seiliedig ar wybodaeth cwrs llawn Safon Uwch Ffiseg. | Arholiad ymarferol ac arholiad ysgrifenedig. |

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

## Pam astudio'r pwnc?

Caiff y cymhwyster ei ddarparu gan Cam wrth Gam sy'n rhan o 'Mudiad Meithrin.' Cam wrth Gam yw'r unig ddarparwr hyfforddiant cenedlaethol sy'n cyflwyno cyrsiau Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir gwasanaeth o ansawdd uchel gan diwtoriaid a dilyswyr, sy'n meddu ar brofiad a chymwysterau priodol. Mae'r cymhwyster hwn yn gwrs gwybodaeth ac ymarfer sydd gyfwerth â 3 x Lefel A. Mae'n addas i bawb sydd eisiau gweithio mewn lleoliadau neu wasanaethau gofal, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru, neu barhau â'u hastudiaethau yn y maes Gofal Plant.
Pe baech yn dewis i astudio'r cymhwyster yma, ni fydd modd dewis unrhyw bynciau arall gan y byddwch yn derbyn dau ddiwrnod o wersi gyda thiwtor profiadol a dau ddiwrnod yr wythnos mewn lleoliad gwaith megis Cylch Meithrin, Ysgol Gynradd Gymraeg neu Feithrinfa Ddydd Gymraeg. Bydd angen cwblhau o leiaf 720 awr yn y lleoliad dros y ddwy flynedd.

## Cynnwys y cwrs

**Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd (Blwyddyn 12)**

Caiff y cwrs yma ei ddysgu ochr yn ochr â'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

- Rhaid cyflawni pum uned orfodol gwybodaeth a dealltwriaeth
- Caiff y cwrs ei gyflwyno a'i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Caiff y cwrs ei asesu drwy un prawf dewis lluosog sy'n cael ei farcio'n allanol

**Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori (Blwyddyn 13)**

Yma, bydd cyfuniad o unedau sy'n seiliedig ar ymarfer allan ar leoliad lle bydd eich asesydd yn ymweld â'r lleoliad er mwyn eich asesu ynghyd ag unedau o theori sy'n cael eu hasesu'n allanol gan CBAC.

## Sut asesir y pwnc?

### Lefel 2: Craidd

| UNEDAU | TEITL | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|
| 001 | Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae | Gwybodaeth am faterion amrywiol yn ymwneud â datblygiad cyfannol plant, dulliau amrywiol o ddysgu, pwysigrwydd iechyd a llesiant, proffesiynoldeb a disgwyliadau fel gweithiwr gofal plant, diogelu, iechyd a diogelwch a dysgu trwy chwarae. | Prawf aml-ddewis |
| 002 | Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygu | | |
| 003 | Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | | |
| 004 | Diogelu Plant | | |
| 005 | Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | | |

**Lefel 3: Ymarfer a Theori**

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| 300, 301, 302 a 303 ac unedau opsiynol eraill | Lefel 3 - Ymarfer Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygu | 70% | Gwybodaeth am ddatblygiad cyfannol plant, Damcaniaethwyr, polisïau, deddfwriaeth a gweithdrefnau ar leoliad ayyb. | Portffolio o dasgau, arsylwadau ar leoliad, logiau myfyriol a thrafodaethau proffesiynol |
| 332 | Lefel 3 – Theori<br><br>Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | | Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed) | Creu stori a pharatoi a chyflwyno amrywiaeth o weithgareddau i gyd-fynd â'r sbardun a'u gwerthuso. |
| 330 | Lefel 3 - Theori | 15% | Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. | Arholiad allanol |
| 331 | Lefel 3 - Theori | 15% | Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. | Tasg ymchwil estynedig |

## Dilyniant

Bydd dilyn y cymhwyster yn agor drysau i chi yn y byd gwaith megis fel cynorthwyydd dosbarth, arweinydd Cylch Meithrin, nani, neu gynorthwyydd Dysgu Sylfaen. Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio yn y meysydd blynyddoedd cynnar, addysg, iechyd a gofal neu nyrsio. Rhoddir y pwyntiau UCAS canlynol am y cymhwyster yma: A* 168; A 144; B 120; C 96; D 72; E 48.

# Gwasanaethau Amddiffyn (BTEC)

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ehangu eu hastudiaethau a'u gorwelion mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'r sector cyhoeddus a'r byd gwaith. Datblygir blaengaredd ac annibyniaeth o fewn y cwrs drwy gyflawni nifer o weithgareddau ymarferol amrywiol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae gofyn bod myfyrwyr wedi cael 5 TGAU A* - C TGAU. Nid yw Lefel 2 Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwaith Tîm) yn angenrheidiol.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau, technegau, nodweddion personol ac agweddau sy'n hanfodol yn y sector Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12/13

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 2** | Ymddygiad a disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn Gwisg Unffurf | 33% | Dealltwriaeth o'r prif safbwyntiau seicolegol a'u heffaith ar ymddygiad. Dadansoddi awdurdod, ufudd-dod, cydymffurfiaeth a theorïau ymddygiad a'u heffaith yn y gwasanaethau amddiffyn. Dyfarniadau rhwng ymddygiad, theori ac ymarfer yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Gwaith tîm, Arweinyddiaeth a chyfathrebu yn y Gwasanaethau Amddiffyn Gwisg Unffurf | 33% | Arddulliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Theorïau a thechnegau a ddefnyddir ar gyfer datblygu timau effeithiol yn y gwasanaethau amddiffyn. Defnydd o ddulliau a systemau cyfathrebu sy'n Cymhwyso sgiliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth mewn cyd-destunau gwasanaethau amddiffyn | Asesiad mewnol |
| **Uned Ychwanegol** | Unedau dewisol (I ddewis gan yr ysgol) | 33% | 2 o'r 4 uned:<br>Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored,<br>Sgiliau Alldeithio,<br>Cyflwyniad I droseddeg,<br>Pwerau'r Heddlu a'r gyfraith. | Asesiad mewnol |

# Gwleidyddiaeth a Llywodraeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn un cyfoes a chyffrous a bydd yn eich helpu i ddeall a dylanwadu ar y grymoedd sy'n rheoli ein cymdeithas. Mae'n gwrs sy'n datblygu sgiliau megis meddwl yn ddadansoddol, gwerthuso dadleuon, dehongli gwybodaeth a threfnu a chyfathrebu eich syniadau yn y modd mwyaf pwerus posib. Fe fydd y pwnc yn eich grymuso gydag amrywiaeth eang o sgiliau byddai unrhyw Brifysgol neu gyflogwr yn falch i'w gweld. Fe fydd y cwrs yn eich helpu i ddeall eich hawliau ac yn eich helpu i fod yn gliriach am eich safbwyntiau gwleidyddol personol. Mae'n bwnc sy'n 'fyw' ac yn hollol gyfoes – Brexit, Trump, annibyniaeth i'r Alban/Cymru – mae'r pwnc yn gyfle i astudio pob un o'r agweddau yma ac i ddeall yn well y byd rydych yn byw ynddo'r funud yma! Gyda'r oedran pleidleisio wedi ei ostwng i 16 yng Nghymru mae'n bwysicach nag erioed bod pobl ifanc yn ymddiddori ac yn deall y systemau a phrosesau gwleidyddol sy'n rheoli eu bywydau.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes disgwyl i ymgeiswyr fod wedi dysgu unrhyw faes penodol ymlaen llaw. Byddai'n fanteisiol pe bai'r disgybl wedi ennill cymhwyster TGAU Gradd C yn y Saesneg neu yn y Gymraeg.

## Cynnwys y cwrs?

Byddwch yn astudio system wleidyddol Prydain gan ffocysu yn gyntaf ar werthuso cyfansoddiad Prydain. Yna, bydd modd edrych ar Senedd San Steffan a Senedd Cymru gan ffocysu ar ba mor effeithiol ydynt wrth basio deddfau a hefyd archwilio eu llywodraethau penodol. Bydd modd hefyd astudio Prif Weinidog Cymru a Phrydain gan eto dadansoddi beth yw natur eu pŵer. Byddwch hefyd yn astudio beth mae'n golygu i fyw mewn democratiaeth gan drafod pa mor ddemocrataidd yw Prydain gan adnabod a gwerthuso'r nodweddion hynny; etholiadau, hawliau dinasyddion, systemau ethol, patrymau pleidleisio ayyb. Ym Mlwyddyn 13 bydd cyfle i astudio 4 ideoleg wleidyddol wahanol (Rhyddfrydiaeth, Ceidwadaeth, Cenedlaetholdeb, Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth), ac yna deall a dadansoddi system llywodraethu a gwleidyddiaeth America yn ei gyfanrwydd.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | 20% o'r cwrs | Cyfansoddiad Prydain a'r Barnwrfa. Senedd San Steffan a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Dyfodol Datganoli. | Arholiad 1 awr 30 munud |
| **Uned 2** | Byw a Chyfranogi mewn democratiaeth | 20% o'r cwrs | Patrymau Pleidleisio, Systemau Ethol a Refferenda. Pleidiau Gwleidyddol, Grwpiau Pwysedd a Mudiadau Cymdeithasol Newydd. Dinasyddiaeth a Hawliau Dynol. | Arholiad 1 awr 30 munud |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Ideolegau Gwleidydol | 30% o'r cwrs | Rhyddfrydiaeth, Ceidwadaeth, Cenedlaetholdeb, Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth. | Arholiad 2 awr 30 munud |
| **Uned 4** | Gwleidyddiaeth America | 30% o'r cwrs | Cyfansoddiad America a'r Mesur Iawnderau. System llywodraethu America gan gynnwys y Gyngres, yr Arlywydd a'r Llys Goruchaf. Diwylliant gwleidyddol America gan gynnwys patrymau pleidleisio, pleidiau gwleidyddol a'r broses etholiadol. | Arholiad 2 awr 30 munud |

# Diploma Lefel 3: Gwyddor Bwyd a Maeth

## Pam astudio'r pwnc?

Dyma gwrs sy'n eich galluogi i ddatblygu gwybodaeth helaeth am y pwnc Gwyddor Bwyd a Maeth. Mae dealltwriaeth o wyddor bwyd a maeth yn berthnasol i lawer o ddiwydiannau a swyddi. Mae darparwyr gofal a maethegwyr mewn ysbytai yn defnyddio'r wybodaeth hon, fel y gwna hyfforddwyr a chyfarwyddwyr ffitrwydd. Mae gwestai a thai bwyta, gweithgynhyrchwyr bwyd ac asiantaethau llywodraeth hefyd yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddatblygu bwydlenni, cynhyrchion bwyd a pholisïau sy'n cefnogi mentrau bwyta'n iach.

Mae'r cwrs yn cynnig y cyfle i ddysgu am y berthynas rhwng y corff dynol a bwyd, yn ogystal â datblygu sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith arbrofol a'r broses o goginio a pharatoi bwyd. Mae pwyslais cryf ar waith ymarferol sy'n golygu ei fod felly'n ddelfrydol ar eich cyfer chi os oes gwell gyda chi i ddysgu drwy wneud. Gall y cwrs yma arwain at yrfa yn sectorau bwyd a diod y diwydiannau lletygarwch ac arlwyo, iechyd yr amgylchedd, cynhyrchu bwyd neu adwerthu bwyd. Mae'n gwrs sy'n cynnig mynediad i gyrsiau coleg tebyg i BSc Bwyd a Maeth, BSc Maeth Dynol, BSc (Anrh.) Maeth Iechyd Cyhoeddus, BSc (Anrh.) Gwyddor Bwyd a Thechnoleg.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r cwrs yn cynnig dilyniant o'r cwrs TGAU Bwyd a Maeth ond mae yn bosib dechrau ar y cwrs o'r newydd.

## Cynnwys y cwrs?

Bydd rhaid cwblhau tair uned dros ddwy flynedd i fod yn llwyddiannus.

Yn ystod Blwyddyn 12 rhaid cwblhau Uned 1. Pwrpas uned 1 yw i sicrhau eich bod yn datblygu dealltwriaeth o anghenion maethol grwpiau targed penodol a chynllunio a choginio seigiau cymhleth i gwrdd a'u hanghenion maethol. Rhaid deall hefyd bod hylendid bwyd yn ofyniad hanfodol i unrhyw un sy'n trin bwyd. Trwy gydol yr uned byddwch yn meithrin dealltwriaeth o sut i nodi peryglon a lleihau risgiau wrth gynhyrchu bwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn rhaid eistedd un arholiad a chyflwyno darn o waith cwrs.

Ym mlwyddyn 13 rhaid cwblhau Uned 2 a 3. Mae Uned 2 yn eich dysgu am ddiogelwch bwyd. Rhaid canfod sut y gall micro-organebau effeithio ar ddiogelwch bwyd a sut y gall rhai bwydydd achosi salwch mewn pobl sydd ag anoddefgarwch neu alergedd a pha reolaethau ddylai fod ar waith i leihau'r risgiau i bobl. Mae'r uned yma yn cael ei hasesi'n allanol trwy gwblhau aseiniad sy'n cael ei lunio gan CBAC. Disgwylir i chi gwblhau'r dasg yn annibynnol dan amodau rheoledig rhwng 1af o Fai a 1af o Fehefin ym mlwyddyn 13.

Nod Uned 3 yw i ddatblygu eich dealltwriaeth o briodweddau gwyddonol bwyd a sut y mae'r priodweddau hyn yn cyfrannu at y newidiadau sy'n digwydd mewn bwyd. Byddwch yn cynnal a chynllunio arbrofion gyda mathau gwahanol o fwyd er mwyn datrys problemau cynhyrchu bwyd. Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol trwy gwblhau aseiniad dan amodau asesu dan reolaeth.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Diwallu anghenion maethol grwpiau penodol | 50% | • Diogelwch bwyd<br>• Maeth<br>• Cynllunio bwydlen<br>• Coginio seigiau cymhleth | Asesiadau mewnol ac allanol |

### Blwyddyn 13

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 2** | Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta | 25% | • Priodweddau micro-organebau<br>• Dulliau cadw bwyd<br>• Alergeddau ac anoddefgarwch<br>• Mesurau rheoli risgiau | Asesiad allanol |
| **Uned 3** | Arbrofi i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd | 25% | • Priodweddau gwyddonol bwyd<br>• Ymchwilio ac arbrofi yn wyddonol gyda bwyd<br>• Datrys problemau cynhyrchu | Asesiad mewnol |

# Cymhwyster Cymhwysol Lefel 3: Gwyddor Feddygol

## Pam astudio'r pwnc?

Hoff o Fioleg – diddordeb yn y corff dynol ond ddim yn hoffi dysgu am blanhigion? Dyma'r cwrs i chi! Bydd astudio Gwyddor Feddygol yn cael chi i feddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol a fydd yn eich cefnogi i ddatblygu i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â Gwyddor Feddygol. Mae'n gwrs addas ar gyfer astudio Nyrsio, Ffisiotherapi, Therapi Galwedigaethol ond **NID YDYW'N ADDAS AR GYFER MEDDYGAETH neu DDEINTYDDIAETH**. Bydd llwyddo yn y cwrs yn agor drysau at swyddi yn y gwyddorau ffisiolegol neu wasanaethau labordy clinigol. Yn bwysicach na hyn, bydd hefyd yn dangos bod gennych sgiliau troslwyddiadwy defnyddiol, er enghraifft, dadansoddi data, cynnal ymchwiliadau, llythrennedd gwyddonol a'ch bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes gwyddoniaeth a meddygaeth. Mae'r cwrs yn gofyn am sgiliau gwahanol i Lefel A Bioleg. Ni fydd rhaid i chi astudio planhigion(!), ac mae'r ffaith mai gwaith cwrs yw'r rhan helaeth o'r asesu yn golygu nad oes rhaid cofio llawer o ffeithiau ar eich cof – yn hytrach rhaid ffurfio cysylltiadau rhwng gwaith theori ac astudiaethau achos o gleifion go iawn.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Gradd CC neu'n uwch mewn Gwyddoniaeth Dwyradd TGAU, neu gradd C yn Bioleg a gradd C allan o naill ai Cemeg neu Ffiseg TGAU.

## Cynnwys y cwrs?

Gwyddor Feddygol yw'r wyddor o ymdrin â chynnal iechyd, ac atal a thrin clefydau. Datblygwyd y cwrs ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd yn ymwneud â gofal iechyd ac ymchwil feddygol. Bydd 2 uned lle fyddwch yn cynnal profion ffisiolegol ar 'gleifion go iawn' ac ar samplau 'go iawn' o wrin, fflem neu waed. Bydd rhaid dysgu am wahanol gyffuriau a sut i ddewis y meddyginiaeth orau i wella cyflyrau meddygol ac mae rhan o uned 4 yn canolbwyntio ar ganser.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | ASESU |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Iechyd a chlefydau dynol | 25% | Arholiad allanol: Synoptig |
| **Uned 2** | Technegau mesur ffisiolegol | 12.5% | Asesiad crynodol dan reolaeth: Mewnol |
| **Uned 3** | Dulliau ymchwil Gwyddor Feddygol | 12.5% | Asesiad crynodol dan reolaeth: Mewnol |
| **Uned 4** | Meddyginiaethau a thrin clefydau | 20% | Asesiad crynodol dan reolaeth: Mewnol |
| **Uned 5** | Technegau labordy clinigol | 15% | Aseiniad: Allanol |
| **Uned 6** | Astudiaeth achos feddygol | 15% | Arholiad allanol: Seiliedig ar dair astudiaeth achos |

# Hanes

## Pam astudio'r pwnc?

Nid dim ond dysgu ffeithiau a gwybodaeth yw Hanes Lefel A ond yn hytrach astudiaeth heriol a chyffrous ar sut mae cymunedau ac unigolion y gorffennol wedi creu ein byd ni heddiw, yn ogystal â sut mae'r gorffennol wedi cael ei ddehongli. Mae'n astudiaeth ddiddorol o bobl – pobl ddiffygiol, arwrol a chymhleth. Fel un o'r pynciau traddodiadol mae Prifysgolion yn gweld gwerth mawr mewn Hanes fel pwnc Lefel A gyda nifer o fyfyrwyr yn ei ddefnyddio fel cam tuag at astudiaeth bellach o'r gyfraith, gwleidyddiaeth, newyddiaduriaeth, addysg a llawer mwy. Ar ei fwyaf uchelgeisiol, mae'r pwnc yn astudiaeth o bopeth.

O safbwynt deallusol, lefel A Hanes yw'r caffaeliad o sgiliau allweddol pwysig. Fe fydd Hanes yn eich dysgu chi i ddadansoddi, ystyried a dadlau yn eich ysgrifennu. Fel pwnc mae'n cysylltu'n dda gyda gweddill y Dyniaethau a phynciau llenyddol megis Cymraeg a Saesneg, ond mewn gwirionedd yn opsiwn da gydag unrhyw bwnc arall ac i ddisgybl sydd yn edrych i gael proffil lefel A amrywiol ac sydd am ddatblygu ystod eang o sgiliau.

*'The more you know about the past, the better prepared you are for the future.'* (Theodore Roosevelt)

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes disgwyl i ymgeiswyr fod wedi dysgu unrhyw faes penodol ymlaen llaw, er y bydd llawer o ymgeiswyr wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rai meysydd o hanes, trwy ddilyn y pwnc ar lefel TGAU. Pan na fydd yr ymgeisydd wedi sicrhau cymhwyster TGAU mewn Hanes, disgwylir iddo/iddi fod wedi ennill cymhwyster cymharol megis TGAU Gradd C yn y Saesneg neu yn y Gymraeg.

## Cynnwys y cwrs?

Astudir tri chyfnod penodol:

- Hanes Cymru a Lloegr, tua 1780-1880
- Hanes Yr Almaen Natsïaidd, tua 1918-1945
- Hanes America tua 1890-1990

Mae cynnwys y cwrs llawn yn un diddorol, heriol ac eang.
Ym mlwyddyn 12 fe fyddwch chi'n astudio dau gyfnod hanesyddol; hanes Cymru a Lloegr 1780-1880 yn ffocysu ar y frwydr dros ddemocratiaeth a thwf radicaliaeth ym Mhrydain i hanes yr Almaen ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a thwf y blaid Natsïaid yn yr 1920au. Byddwch yn astudio effaith Cytundeb Versailles ar yr Almaen ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf yn ogystal a digwyddiadau allweddol yn nhwf y blaid Natsïaid yn yr 1920au megis y Munich Putsch. Byddwch chi'n mireinio'r sgil o ddadansoddi ffynonellau hanesyddol yn ogystal â datblygu eich gallu i werthuso unigolion a digwyddiadau hanesyddol mewn ffordd ddadansoddol. Ar ddiwedd y flwyddyn bydd dwy arholiad - un ar hanes Prydain a'r llall ar hanes yr Almaen.

Ym mlwyddyn 13 byddwch yn parhau eich astudiaeth fanwl ar yr Almaen ond y tro hyn yn ffocysu ar gyfnod yr Almaen Natsiaidd yn yr 1930au yn edrych ar bolisïau cymdeithasol, economaidd, hiliol a thramor y blaid ac yna digwyddiadau'r Ail Rhyfel Byd o safbwynt yr Almaen. Byddwch yn astudio sut bu i Hitler atgyfnerthu ei bŵer yn yr 1930au gan droi'r Almaen i wladwriaeth un-blaid yn ogystal a thriniaeth yr Iddewon a grwpiau lleiafrifol arall a'r Ateb Terfynol. Yn ogystal â hyn byddwch chi'n gwneud astudiaeth eang o hanes America tua 1890-1990 sydd yn edrych ar ddatblygiad America fel archbŵer yn y cyfnod yn ogystal â'r frwydr am hawliau sifil yn y wlad. Fe fydd yr uned yma yn edrych ar rôl unigolion allweddol fel yr Arlywydd Eisenhower a JFK, Martin Luther King a Rosa Parks yn ogystal â chyfnodau pwysig yn hanes America fel yr Ail Rhyfel Byd, y Rhyfel Oer, Rhyfel Fietnam a chwymp wal Berlin.

Trwy gydol blwyddyn 13 byddwch chi hefyd yn cwblhau un traethawd asesiad di-arholiad sy'n edrych ar y dehongliadau gwahanol o destun penodol naill ai ar hanes Cymru, hanes y Deyrnas Unedig, hanes Ewrop neu hanes y Byd e.e achosion Rhyfel Cartref America neu'r rhesymau dros lwyddiant y Mudiad Hawliau Sifil.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth o Gyfnod | 20% | Hanes Cymru a Lloegr: Gwleidyddiaeth, Protest a Diwygio, 1780-1880 | Papur arholiad 1 awr 30 munud |
| **Uned 2** | Astudiaeth Fanwl: Rhan 1 | 20% | Yr Almaen: Democratiaeth ac Unbennaeth,1918-1945 Rhan 1: Weimar a'i sialensiau tua 1918-1933 | Papur arholiad 1 awr 45 munud |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Astudiaeth Eang | 20% | Hanes America tua 1890-1990<br>Thema 1: Brwydro dros Hawliau Sifil<br>Thema 2: Ffurfio Pŵer Mawr | Papur arholiad 1 awr 45 munud |
| **Uned 4** | Astudiaeth Fanwl: Rhan 2 | 20% | Yr Almaen: Democratiaeth ac Unbennaeth,1918-1945 Rhan 2: Yr Almaen Natsïaidd tua 1933-1945 | Papur arholiad 1 awr 45 munud |
| **Uned 5** | Asesiad Di-arholiad. | 20% | Dehongliadau gwahanol ar destun penodol naill ai ar hanes Cymru, hanes y DU, hanes Ewrop neu hanes y Byd e.e datblygiadau'r Rhyfel Oer. | Asesiad di-arholiad Traethawd |

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Pam astudio'r pwnc?

Mae 50% o'r cwrs yn waith cwrs a 50% sy'n dibynnu ar yr arholiad. Mae'n gwrs delfrydol, felly, ar gyfer myfyrwyr sydd ddim yn gwneud cystal mewn arholiadau. Mae'n bwnc sydd â sylfaen eang a gall agor drysau at lawer o yrfaoedd a chyrsiau gwahanol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

5 TGAU gradd A*-C (Cymraeg a Saesneg yn hanfodol). Rhaid bod yn berson sy'n barod i weithio'n annibynnol. Bydd ymgeiswyr yn elwa o astudio'r TGAU dwyradd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **ond nid yw'n hanfodol** gwneud hynny.

## Cynnwys y cwrs?

Ym mlwyddyn 12 mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio i sut caiff gofal a chefnogaeth eu darparu yng Nghymru, a sut mae hyn yn cymharu â gwlad arall yn y DU. Ym mlwyddyn 13 bydd ymgeiswyr yn cyflwyno adnodd gwybodaeth ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector gofal plant **neu** iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Hybu iechyd a llesiant | 20% | • Diffiniadau a chysyniadau o iechyd a llesiant<br>• Deall safbwyntiau ynghylch iechyd, lles a gwydnwch<br>• Cefnogi a hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru | Asesiad allanol |
| **Uned 2** | Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru | 20% | • Cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau personol<br>• Arferion gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant<br>• Darpariaeth leol a chenedlaethol<br>• Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion | Asesiad di-arholiad |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc. | 30% | • Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant<br>• Pwysigrwydd chwarae wrth dysgu a datblygu<br>• Ymddygiad plant a phobl ifanc | Asesiad allanol |
| **Uned 4** | Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc. | 30% | • Anghenion plant a phobl ifanc<br>• Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Rôl deddfwriaeth bresennol a mentrau'r llywodraeth I ddiogelu a gwella gofal a chefnogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru. | Asesiad di-arholiad |

**Neu**

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 5** | Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion | 30% | Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion.<br>Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion.<br>Strategaethau a dulliau gweithredu sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol. | Asesiad allanol |
| **Uned 6** | Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch | 30% | Anghenion gofal a chefnogaeth oedolion.<br>Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chefnogaeth ar gyfer oedolion.<br>Rôl deddfwriaeth bresennol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chefnogaeth oedolion agored i niwed yng Nghymru. | Asesiad di-arholiad |

# Mathemateg

## Pam astudio'r pwnc?

Er bod y cwrs UG a Lefel A Mathemateg yn heriol, mae'n cael ei ystyried fel pwnc uchel ei barch gan brifysgolion a chyflogwyr. Mae rhai disgyblion yn dewis astudio'r pwnc ar gyfer eu diddordeb cynhenid ond mae nifer yn ei ddewis fel offeryn cyfathrebu ar gyfer disgyblaethau arall.

- Gallwch ddatblygu eich dealltwriaeth o Fathemateg a phrosesau mathemategol mewn ffordd sy'n magu hyder ac yn meithrin mwynhad
- Ehangu eich hamrediad o sgiliau a thechnegau mathemategol a'u defnyddio mewn problemau anoddach, nad ydynt wedi eu strwythuro
- Datblygu eich dealltwriaeth o gydlyniad a dilyniant mewn Mathemateg a sut y gellir cysylltu gwahanol feysydd ym myd Mathemateg
- Defnyddio eich Mathemateg fel ffordd effeithiol o gyfathrebu
- Darllen a deall dadleuon mathemategol ac erthyglau sy'n ymwneud â chymhwyso Mathemateg;
- Meithrin y sgiliau sydd eu hangen er mwyn medru gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg fel cyfrifianellau a chyfrifiaduron, gwybod lle y byddai defnydd o'r fath yn anaddas a bod yn ymwybodol o gyfyngiadau
- Datblygu ymwybyddiaeth o berthnasedd Mathemateg i feysydd astudio eraill, yn ogystal â'r byd gwaith a'r gymdeithas yn gyffredinol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

O leiaf gradd B ar y Papurau Haen Uwch yn TGAU.

## Cynnwys y cwrs?

- **Mathemateg Bur**: mae'r maes yma o fathemateg yn ymestyn y syniadau sydd eisoes wedi eu astudio ar y cwrs TGAU megis algebra, calcwlws a geometreg
- **Ystadegau**: mae'r uned yma yn trafod dosraniadau arwahanol a di-dor ac hefyd astudiaeth o thebygolrwydd
- **Mecaneg**: mae'r uned yma yn astudiaeth o fudiant yn nefnydd bob dydd.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Mathemateg Bur | 25% | Syrdiau, Geometreg Cyfesurynol, Differu, Unfathiannau, Integru, Logarithmau, Y Cylch, Radiannau | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Ystadegaeth a Mecaneg | 15% | Hafaliadau Mudiant, Deddfau Newton, Tebygolrwydd, Diagrammau Venn, Dosraniadau Binomial a Poisson, Setiau data mawr, Hafaliadau mudiant, Deddf Newton, Graffiau teithio | Arholiad allanol |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Mathemateg Bur | 35% | Differu, Integru, Rheol Simpson, Ffwythiannau, Modwlws, Fectorau, Ffracsiynau Rhannol, Unfathiannau, Cromliniau. | Arholiad allanol |
| **Uned 4** | Ystadegaeth a Mecaneg | 25% | Tebygolrwydd amodol, Profi Rhagdybiaeth Ystadegol, Dosraniad Unffurf a Normal, Momentau, Fectorau, Grymoedd, Deddfau Newton, Cinemateg. | Arholiad allanol |

# Mathemateg Bellach (UG yn unig ym Mlwyddyn 13)

## Pam astudio'r pwnc?

Mae Mathemateg Bellach yn gymhwyster sydd yn ehangu ac yn dyfnhau'r fathemateg a wneir mewn Mathemateg Safon Uwch. Cymerir Mathemateg Bellach ochr yn ochr â Mathemateg Safon UG neu Safon Uwch. Er bod y cwrs yn heriol, caiff ei ystyried fel pwnc uchel ei barch gan brifysgolion a chyflogwyr.

Mae llawer o resymau da dros gymryd Mathemateg Bellach:

- I rywun sy'n mwynhau mathemateg, mae'n cynnig cyfle i ddysgu am feysydd newydd o fathemateg bur, ynghyd â chyfleoedd i astudio cymwysiadau mathemateg bellach mewn mecaneg ac ystadegaeth.
- Mae myfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Bellach yn canfod bod yr amser ychwanegol a dreulir yn astudio mathemateg yn hybu eu marciau mewn Mathemateg Safon Uwch sengl. Mae astudio Mathemateg Bellach yn atgyfnerthu eich gwaith Mathemateg Safon Uwch safonol, gan eich helpu i gyflawni eich graddau gorau posibl.
- Mae'n gwneud y trawsnewid o'r chweched dosbarth i gyrsiau prifysgol sydd â llawer o gynnwys mathemategol yn haws gan y bydd mwy o gynnwys cwrs y flwyddyn gyntaf yn gyfarwydd. Os ydych chi'n bwriadu gwneud gradd fel Peirianneg, Gwyddorau, Cyfrifiadureg, Cyllid/Economeg, ac ati, neu yn amlwg Mathemateg ei hun, byddwch yn elwa'n fawr o gymryd Mathemateg Bellach. Mae Mathemateg Bellach UG yn cyflwyno pynciau newydd fel matricsau a rhifau cymhlyg sy'n hanfodol mewn llawer o raddau STEM.
- Mae myfyrwyr sy'n cymryd Mathemateg Bellach yn dangos ymrwymiad cryf i'w hastudiaethau. Mae rhai cyrsiau prifysgol o fri yn gofyn i chi gael cymhwyster Mathemateg Bellach a gall eraill addasu eu gofynion gradd yn fwy ffafriol i fyfyrwyr â Mathemateg Bellach. Yn sicr, caiff ei ystyried fel pwnc uchel ei barch gan brifysgolion a chyflogwyr.
- Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr sy'n dewis Mathemateg Bellach yn dweud ei fod yn brofiad heriol ond yn un sydd yn rhoi boddhad, yn eu hysgogi a'u cymell ac hynny i fod yn ddysgwyr annibynnol, mentrus.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Disgwylir i ddisgyblion i gael gradd A* Mathemateg TGAU, ac yn ddelfrydol gradd A* Mathemateg Rhifedd TGAU hefyd.

## Cynnwys y cwrs?

- **Mathemateg Bur**: testunau megis matricsau, rhifau cymhlyg, symiant o gyfresi feidraidd, calcwlws pellach, hafaliadau trigonometreg pellach, Theorem De Moivre, ffwythiannau hyperbolig, cyfresi Maclaurin a chyfesurynnau Pegynlinol.
- **Ystadegau**: testunau megis darganfod cymedr ac amrywiant cyfuniadau llinol o hapnewidynnau annibynnol a dosraniad tebygolrwydd arwahanol, dosraniadau tebygolrwydd di-dor, dosraniad Poisson, dosraniad Esbonyddol, cyfernodau cydberthyniad Spearman a moment lluoswm Pearson, dosraniad Chi sgwâr.
- **Mecaneg***:* Testunau megis momentwm, ergyd, gwaith, egni, mudiant cylchol, fectorau, craidd mas, ecwilibriwm gwrthrychau anhyblyg a hafaliadau differol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 13 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Mathemateg Bur Bellach | 13.3[R]% | Matricsau a thrawsffurfiadau matricsau; rhifau cymhlyg; symiant o gyfresi feidraidd; gwreiddiau hafaliadau polynomaidd; profi gan ddefnyddio dull Anwythiad Mathemategol; Fectorau. | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Ystadegaeth Bellach | 13.3[R]% | Hapnewidyn a phroses Poisson Spearman a Pearson; Dosraniad Esbonyddol; Dosraniad Chi Sgwar. | Arholiad allanol |
| **Uned 3** | Mecaneg Bellach | 13.3[R]% | Momentwm ac ergyd mudiant cylchol gwaith; egni a phŵer; fectorau llinynnau a sbringau ysgafn. | Arholiad allanol |

# Diploma Ategol Lefel 3 mewn Technolegau Peirianneg

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r Diploma Lefel 3 mewn Peirianneg yn Gymhwyster Cysylltiedig Galwedigaethol (VRQ). Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn llwybrau penodol o fewn Prentisiaeth uwch neu ddysgwyr 16-19 oed mewn addysg amser llawn sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y sector peirianneg, gan gynnwys galwedigaethau a rolau swydd fel peiriannydd cynnal a chadw, peiriannydd mecanyddol, weldiwr a / neu wneuthurwr, a pheiriannydd trydanol a / neu electronig.

Gyda dyfodiad technoleg a bywyd modern, mae'r gymuned beirianneg wedi derbyn canmoliaeth am eu cyfraniad at dechnoleg. Mae myfyrwyr wedi dyheu am gael cymhwyster peirianneg allan o'u diddordeb yn y pwnc a'r buddion y mae'n eu rhoi yn y dyfodol. Bydd dewis peirianneg fel gyrfa yn gwella'ch gallu i feddwl yn heriol. Ni fydd bywyd yn ddiflas gyda'r yrfa hon. Yn ystod yr astudiaeth a'r gwaith, bydd peiriannydd yn wynebu sefyllfaoedd heriol lle mae angen creadigrwydd a gallu rhesymegol. Gallant gyflwyno cysyniadau a syniadau newydd. Mae astudiaeth a gwaith peirianneg yn gofyn am arloesi a chreadigrwydd i greu technoleg newydd. Mae creadigrwydd o'r fath yn eich galluogi i ddod ar draws syniadau a thechnegau newydd. Mae'n yrfa arloesol iawn.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid bod gan ddysgwyr y potensial i gyflawni pob agwedd ar y cymhwyster. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos bod ganddyn nhw lefelau da o lythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol i gydymffurfio ag agweddau iechyd a diogelwch y cynllun a'r gallu i gwblhau'r canlyniadau dysgu a'r asesiadau. Mae'n fantais i'r dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs Peirianneg lefel 2.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn datblygu ystod a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn peirianneg. Byddwch yn astudio iechyd a diogelwch a sut i weithio'n ddiogel mewn amgylchedd ddiwydiannol. Mae'r cwrs wedi ei selio ar weithgareddau ymarferol sydd yn cynnwys adeiladu nifer o gynhyrchion gan ddefnyddio sgiliau peirianneg gwahanol. Bydd angen i'r disgyblion ddysgu sut i weithio i fanylder cywir iawn a defnyddio offer mesur i werthuso eu gwaith. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw a pheiriannau. Bydd angen i'r myfyrwyr ddangos y gallu i ddarllen dyluniadau technolegol a deall gwybodaeth o ffynonellau gwahanol. Byddwch yn cadw portffolio o waith i ddangos a recordio eich canlyniadau. Byddwch yn astudio elfennau o Fathemateg Peirianneg a sut mae cwmnïoedd Peirianneg yn gweithredu. Mae uned o ddylunio drwy gymorth cyfrifiadur(CAD) ble bydd angen i'r myfyrwyr greu lluniau peirianneg manwl a chywir.

## Sut asesir y cwrs?

Mae'r dulliau asesu o fewn y cymhwyster hwn yn cynnwys arholiad amlddewis ar gyfrifiadur ar gyfer un uned orfodol ac un uned ddewisol. Mae asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig wedi'u marcio gan y ganolfan ar gyfer yr ail uned orfodol ac unedau eraill o fewn llwybr. Dyluniwyd dulliau i asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr ar gyfer pob uned.

## Blwyddyn 12 a 13

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 001** | Iechyd a diogelwch yr amgylchedd a pheirianneg | 20% | Astudio iechyd a diogelwch yn y gweithle, y gyfraith a'r byd peirianneg | Asesiad Allanol drwy arholiad ar-lein |
| **Uned 006** | Dylunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD) | 20% | Astudio sut i ddefnyddio gyfrifiadur i greu dyluniadau peirianneg (CAD) | Asesiadau mewnol a chwestiynau gwybodaeth |
| **Uned 023** | Cynhyrchu gwneuthuriadau dalen metel | 20% | Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd a thasgau penodol gyda dalen fetal i greu cynhyrchion peirianneg. Bydd angen cywirdeb penodol i gyrraedd safon lefel 3. | Asesiadau mewnol a chwestiynau gwybodaeth |
| **Uned 042** | Gwirio ac Adolygu Peirianneg | 20% | Bydd yr ymgeiswyr yn astudio egwyddorion o sut mae gwirio ac adolygu gwaith peirianneg ac astudio yr offer gwahanol sy'n cael ei ddefnyddio | Asesiadau mewnol a cwestiynnau gwybodaeth |
| **Uned 064** | Cyfathrebu peirianneg | 20% | Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd ag astudio elfennau mathemateg a chyfathrebu | Asesiadau mewnol a chwestiynau gwybodaeth |

# Saesneg Llenyddiaeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Saesneg Lefel A yn heriol, ysgogol, hynod ddiddorol a gwerth chweil. Mae'r cwrs yn priodi â phynciau'r Celfyddydau neu Wyddoniaeth, gan ddarparu ystod o sgiliau traws-bynciol, ac mae pob prifysgol yn uchel eu parch i'r pwnc. Bydd y cwrs hefyd yn apelio at unrhyw ddisgybl sy'n mwynhau darllen, ysgrifennu, trafod neu ystyried syniadau ac athroniaethau. Yn draddodiadol, cysylltir Saesneg gyda chyrsiau yn y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gyfraith, gan ei fod yn annog dysgwyr i ystyried gwahanol safbwyntiau a dehongliadau. Wedi dweud hyn, bu tuedd mwy diweddar i'w ffafrio mewn sefydliadau sy'n darparu cyrsiau Gwyddoniaeth, Meddygol a Busnes oherwydd y sgiliau gwerthfawr a ddatblygir e.e. sgiliau meddwl, astudio a chyfathrebu.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Disgwylir i fyfyrwyr fod wedi ennill o leiaf gradd C mewn Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith ar lefel TGAU er mwyn cael eu derbyn ar y cwrs.

## Cynnwys y cwrs?

Yn ystod eich blwyddyn Lefel UG, byddwch yn astudio ystod eang a heriol o destunau: o nofel oes Fictoria i farddoniaeth yr 20fed ganrif. Bydd eich blwyddyn gyntaf yn eich tywys trwy astudiaeth fewnol o lenyddiaeth, gan edrych ar destunau gan Seamus Heaney, Tennessee Williams, Owen Sheers, a Charlotte Brontë. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, byddwch yn sefyll dau arholiad: un ar farddoniaeth (llyfr agored); un ar ryddiaith a drama. Yn eich blwyddyn Lefel A, byddwch yn cynnal astudiaeth fanwl o farddoniaeth William Blake a Hamlet gan William Shakespeare. Trwy gydol y flwyddyn, byddwch hefyd yn cwblhau un darn o waith cwrs yn seiliedig ar ddwy nofel.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Rhyddiaith a Drama:<br><br>Charlotte Brontë a Tennessee Williams | 20% | Adran A: Cwestiynau ar y nofel *Jane Eyre* gan Charlotte Brontë;<br>Adran B: Cwestiwn ar y ddrama *A Streetcar Named Desire* gan Tennessee Willimas, | Arholiad allanol |
| **Uned 2** | Barddoniaeth ôl-1900:<br><br>Seamus Heaney ac Owen Sheers | 20% | Adran A: Dadansoddiad o un darn o farddoniaeth;<br>Adran B: Cymharu barddoniaeth Heaney a Sheers. | Arholiad allanol (llyfr-agored) |

## Blwyddyn 13 (Safon Uwch)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Barddoniaeth cyn 1900:<br><br>Barddoniaeth William Blake | 20% | Adran A: Ymateb i farddoniaeth<br>Adran B: Cymharu barddoniaeth | Arholiad allanol (llyfr-agored) |
| **Uned 4** | Shakespeare:<br><br>Hamlet | 20% | Adran A: dadansoddiad o ddarn o'r ddrama:<br>Adran B: traethawd ar thema o fewn y ddrama | Arholiad allanol |
| **Uned 5** | Rhyddiaith:<br><br>The Picture of Dorian Gray | 20% | Gwaith cwrs: cymharu dwy nofel (un cyn 2000 ac un ôl-2000) | Asesiad mewnol/ cymedroli'n allanol. |

# Seicoleg

## Pam astudio'r pwnc?

- Er mwyn cael sylfaen gadarn i astudio Seicoleg yn y Brifysgol.
- Os oes gennych ddiddordeb ar sut mae'r meddwl yn gweithio.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Bydd y pwnc yn newydd i'r mwyafrif o ddisgyblion ac nid oes disgwyl iddynt gael unrhyw wybodaeth flaenorol, er bod angen dealltwriaeth dda iawn o wyddoniaeth, mathemateg a'r gallu i fynegi syniadau'n glir. Mae agwedd bositif at waith cyson yn angenrheidiol oherwydd bydd nifer o'r cysyniadau a astudiwyd yn anghyfarwydd a bydd angen peth darllen cefndirol annibynnol.

## Cynnwys y cwrs?

Byddwch yn astudio cwestiynau fel:

- A yw ymennydd llofruddiwr yn wahanol i ymennydd person normal?
- A yw astudio breuddwydion yn gallu helpu gwella problemau iechyd meddyliol?
- Ydy hi'n bosib newid cof rhywun am ddigwyddiad trwy ddefnyddio un gair yn unig?
- Ydy hi'n iawn i ddefnyddio theori seicolegol i reoli ymddygiad plant?

Byddwch yn astudio sut mae Seicolegwyr yn defnyddio theori gwyddonol i ddarganfod atebion i gwestiynau Seicolegol. Mae hyn yn cynnwys:  astudio rhai ymchwiliadau pwysig y gorffennol; astudio technegau stadudol ac astudio methodolegau ymchwil mewn Seicoleg

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | O'r Gorffennol i'r Presennol | 20% | Gwaith yn ymwneud â phum ymagwedd mewn seicoleg, therapïau a darnau clasurol o dystiolaeth ymchwil. | Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun |
| **Uned 2** | Archwilio Ymddygiad | 20% | Canolbwynt yr uned yw ymchwil seicolegol, o'r cynllunio cynnar hyd at y camau olaf o ddadansoddi a gwerthuso. Mae'n ofynnol i ddysgwyr i gynnal hymchwiliad eu hunain. | Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun |

## Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | MARCIAU | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Goblygiadau yn y Byd Go Iawn | 40% | Mae'r uned yn edrych ar sut mae Seicoleg wedi cael ei ddefnyddio i ddeall a thrin gwahanol ymddygiadau afreolaidd. | Arholiad Ysgrifenedig 2 awr 30 mun |
| **Uned 4** | Dulliau Ymchwil Cymhwysol | 20% | Uned sydd yn canolbwyntio ar waith ymarferol a fydd yn cael ei gynnal gan y dysgwr yn eu hastudiaethau seicoleg, yn ogystal ag ymdrin â senarios newydd. | Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun |

# Sbaeneg

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Sbaeneg yn ehangu'r cyfleoedd gyrfaol mewn meysydd diri gan gynnwys busnes, peirianneg, marchnata, gwyddoniaeth, twristiaeth, y cyfryngau a thechnoleg. Mae'n bwnc academaidd sydd yn cynnig cyfuniad cadarn a chytbwys i ddewisiadau Lefel A ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae Sbaeneg yn cael ei ystyried fel pwnc sydd yn ategu yn arbennig o dda i nifer o gyrsiau prifysgol. Yn sicr, mae astudio Sbaeneg yn agor drysau er mwyn gallu astudio neu deithio'n rhwydd a byw tramor am gyfnod (mae Sbaeneg yn iaith swyddogol mewn mwy na 20 o wledydd)!

Rydym yn byw mewn byd sydd yn rhyn-gysylltiedig, gydag amlieithrwydd yn rhan annatod o hynny. Mae astudio Sbaeneg ar lefel uwch yn gyfle i fyfyrwyr ragori yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol ac yn datblygu pobl ifanc sy'n ystyriol o ddiwylliannau, economi ac ieithoedd eraill ledled y byd.

Mae astudio un o brif ieithoedd Ewrop a'r byd ar lefel uwch yn eich galluogi i gyfoethogi eich ymwybyddiaeth Ewropeaidd ac i ddatblygu eich gwybodaeth ieithyddol er mwyn gallu cyfathrebu'n glir ac yn hyderus. Trwy godi eich safon ieithyddol, mae astudio Sbaeneg yn datblygu a mireinio amryw sgiliau ac yn datblygu'r gallu i droi at ieithoedd eraill. Rhoddir ffocws cryf ar wella sgiliau ieithyddol ynghyd a datblygu sgiliau trosglwyddadwy fel ymreolaeth, dyfeisgarwch, creadigedd, meddwl yn feirniadol, a hyblygrwydd ieithyddol, diwylliannol a gwybyddol.

Cynigir y cyfle i ddisgyblion gynorthwyo neu redeg gweithgareddau allgyrsiol megis clwb ffilmiau tramor a cheir cyfle i gynorthwyo disgyblion iau mewn gwersi fel llysgenhadon iaith yr ysgol. Mae'r cwrs yn cynnig cyfle arbennig i astudio nifer o themâu gwahanol fel rhan o'r pwnc.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs disgwylir i fyfyrwyr fod wedi dilyn a llwyddo yn y cwrs TGAU Sbaeneg. Byddai o fantais i chi fod wedi ennill gradd B neu Uwch.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r fanyleb yn cynnig cyfle i fyfyrwyr adeiladu ar eu hastudiaeth flaenorol trwy themâu cymdeithasol, deallusol a diwylliannol megis perthnasoedd, addysg a chyflogaeth. Bydd cyfle i astudio llenyddiaeth a ffilm yn caniatáu i ddysgwyr wneud dadansoddiad dyfnach o strwythurau iaith a chynyddu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol fel rhan o ymagwedd integredig at ddysgu iaith. Anelir i ddatblygu rhuglder dysgwyr wrth siarad Sbaeneg, yn ogystal â meithrin hyder wrth wrando, darllen, ac ysgrifennu. Astudir hefyd Y Ddwy Sbaen: 1936 ymlaen, sydd yn ffocysu ar gyfnod allweddol yn hanes Sbaen wedi'r Rhyfel Cartref a'r newid i ddemocratiaeth (a gynrychiolir yn y celfyddydau, sinema, llenyddiaeth, celfyddyd a ffotograffiaeth). Mae hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu ac adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad diwylliannol drwy ddefnyddio ffynonellau llafar ac ysgrifenedig dilys mewn cwrs astudio ysgogol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | Gwerth | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Llafar | 12% | Tasg 1: Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig (5-6 munud)<br>Tasg 2: Trafodaeth yn seiliedig ar ail gerdyn ysgogi ysgrifenedig (7-9 munud) | Asesiad di arholiad: 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud) |
| **Uned 2** | Gwrando, darllen a chyfieithu ac ymateb beirniadol ysgrifenedig | 28% | Adran A: Gwrando<br>Adran B: Darllen<br>Adran C: Cyfieithu – o'r Sbaeneg i'r Gymraeg<br>Adran Ch: Ymateb beirniadol ysgrifenedig | Arholiad ysgrifenedig<br>2 awr 30 munud |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | Gwerth | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Llafar | 18% | Project Ymchwil Annibynnol:<br>(a) Cyflwyno project ymchwil annibynnol<br>(b) Trafodaeth ar gynnwys y project ymchwil annibynnol | Asesiad di – arholiad 11 - 12 munud o hyd |
| **Uned 4** | Gwrando, darllen a chyfieithu | 30% | Adran A: Gwrando<br>Adran B: Darllen<br>Adran C: Cyfieithu – o'r Gymraeg i Sbaeneg | Arholiad ysgrifenedig<br>2 awr |
| **Uned 5** | Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig (llyfr caeedig) | 12% | Un cwestiwn traethawd – yn seiliedig ar astudio un gwaith llenyddol oddi ar y rhestr osod | Arholiad ysgrifenedig<br>1 awr 30 munud |

# Diploma Lefel 3: Technoleg Gwybodaeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae TG wrth wraidd bywyd bob dydd, yn y gwaith, y cartref ac yn ein hamser hamdden: graffiau, gemau, systemau rheoli, i gyfathrebu a datrys problemau, mae gan TG rôl gynyddol i'w chwarae. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno gyrfa mewn TG, ac ar gyfer myfyrwyr sydd am ennill cymhwyster Lefel 3 i gefnogi astudiaeth bellach mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch mewn maes TG neu mewn unrhyw sector neu faes arall. Mae'r cymhwyster newydd hwn yn arbennig o ddeniadol oherwydd ei berthnasedd byd-eang a'i aliniad agos ag arfer diwydiannol.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae gofyn bod myfyrwyr wedi cael 5 TGAU A* - C TGAU. Nid yw TGAU TGCh yn angenrheidiol.

## Cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn cynnig ystod eang o unedau sydd yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau gwahanol. Gweler y dabl isod am fanylion.

## Sut asesir y cwrs?

Asesir y cymhwyster hwn drwy 100% gwaith cwrs. Gall yr holl unedau gael eu hasesu ar adegau perthnasol yn ystod y ddwy flynedd. Nid oes unrhyw arholiadau wedi'u hamserlennu. Bydd safonwr yn ymweld â'r ysgol er mwyn safoni eich gwaith. Caiff y cwrs ei raddio gan ddyfarniad Rhagoriaeth (Distinction), Teilyngdod (Merit) neu Basio (Pass). Mae'r cymwysterau hyn yn cario pwyntiau UCAS fel y gwelir isod.

| Gradd | Pwyntiau UCAS | Gradd Lefel A Cyfwerth |
|---|---|---|
| *Rhagoriaeth** | 56 | *A** |
| *Rhagoriaeth* | 48 | *A* |
| *Teilyngdod* | 32 | *C* |
| *Pasio* | 16 | *E* |

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | CYNNWYS |
|---|---|---|
| **Uned 1*** | **Sgiliau Cyflogaeth** | Sgiliau ac egwyddorion ar gyfer cyfathrebu effeithiol a'r priodoleddau rhyngbersonol sy'n ofynnol mewn gweithle. |
| **Uned 19** | **Modelu Taenlen** | Deall sut y gellir defnyddio taenlenni i ddatrys problemau cymhleth o fewn sefydliad busnes go iawn. |
| **Uned 23** | **Cronfeydd Data** | Rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w galluogi i greu cronfa ddata perthynol. |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | CYNNWYS |
|---|---|---|
| **Uned 2*** | **Systemau Gwybodaeth** | Dangos y wybodaeth sydd gan sefydliadau a sut mae hyn yn werthfawr i sefydliad. |
| **Uned 9** | **Cynllunio Prosiectau** | I helpu'r dysgwr i ddeall sut mae prosiectau'n cael eu rheoli ac i allu cynllunio prosiect gan ddefnyddio TG. |
| **Uned 27** | **Graffeg Digidol** | I annog datblygiad sgiliau dylunio creadigol, gan wella hyfedredd technegol gyda meddalwedd safonol y diwydiant. |

* *Unedau gorfodol i'r cwrs, gyda rhyddid i astudio pedwar uned wahanol o'r rhestr ar gael ar wefan OCR.*
https://www.ocr.org.uk/qualifications/cambridge-technicals/information-technology-2012/units/#level-3

# Diploma Lefel 3: Troseddeg

## Pam astudio'r pwnc?

Yn fwyfwy mae Prifysgolion yn chwilio am fyfyrwyr sydd yn ddysgwyr annibynnol ac yn gallu arwain eu hunain lawr llwybr addysgiadol gan reoli eu dysgu eu hunain. O basio'r cymhwyster hwn mae yn brawf clir i Brifysgolion, ac i chi, eich bod yn gallu ymdopi gyda'r math o ddysgu a fydd yn eich wynebu fel Israddedigion yn y Brifysgol.

Cwrs sy'n gweddu unrhyw un sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym myd y gyfraith, gwasanaeth sifil, Llywodraeth leol, gofal ac yn arbennig gyrfa ym myd yr heddlu. Erbyn hyn mae'n rhaid cael gradd mewn Prifysgol mewn cwrs archedig er mwyn cael mynediad i'r heddlu ac mae'r cwrs yma yn caniatáu mynediad i'r cyrsiau hynny.

Mae'r cwrs yn gwrs cymhwysol (applied). Golygai hyn y byddwch yn defnyddio gwybodaeth y byddwch yn ei ddysgu i egluro ymddygiad troseddol ac esbonio a dadansoddi troseddoldeb mewn cymdeithas. Mae hyn yn golygu datblygu sgiliau dadansoddi, datrys problemau, dehongli ac ymholi - sgiliau gwerthfawr iawn ymhob swydd gyfoes.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Gofynnir bod gan y myfyriwr 5 TGAU Lefel A*-C yn gyffredinol a gradd A*- C yn y Dystysgrif Her Sgiliau. Yn ogystal â hyn mae disgwyl bod y gallu gennych chi i reoli eich dysgu eich hunain. Nid cwrs ar gyfer dysgwyr sydd angen sylw parhaol yw hwn.

## Cynnwys y cwrs?

Yn ystod eich cwrs ym mlwyddyn 12eg fe fyddwch chi yn cwblhau;

Uned 1 – Diben yr uned hon yw **cynllunio ymgyrch dros newid** sy'n ymwneud â throseddu.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar droseddau nad yw pobl yn rhoi gwybod amdanynt (Trosedd casineb, trosedd anrhydedd, camdriniaeth ddomestig, troseddau coler wen a thechnolegol) a chanlyniadau troseddau o'r fath. Yn yr uned hon hefyd cyflwynir cynrychioliad y cyfryngau o drosedd a sut gall ymgyrchoedd dros newid godi ymwybyddiaeth o droseddau nad yw pobl yn rhoi gwybod amdanynt yn y gymdeithas. Byddwch yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r fanyleb at y senario a gyflwynir gan friff yr aseiniad pan fydd yr asesiad dan reolaeth yn dechrau. Byddwch yn cwblhau gwaith cwrs sef yr asesiad dan reolaeth 8 awr sy'n rhoi ar brawf eich gallu i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth at senario troseddol. Caniateir i chi ddod a'ch nodiadau dosbarth i mewn i'r asesiad i'ch cefnogi.

Yn Uned 2 ym mlwyddyn 12 fe fyddwch chi'n edrych ar ddamcaniaethau gwahanol am droseddoldeb. A'i natur sydd yn gwneud i bobl droseddu (h.y. bioleg) neu a oes esboniadau amgenach i ymwneud gyda phersonoliaeth, trawma mewn bywyd cynnar neu ydy pobl yn copïo (modelu) ymddygiad eraill? Byddwn yn ystyried hyn trwy edrych yn fanwl ar ymddygiad troseddol e.e. Pam bod llofruddwyr cyfresol (serial killers) yn gwneud yr hyn maen nhw'n gwneud? Pam bod rhai pobl yn ymosodol ac eraill ddim? Sut gallwn ni newid ymddygiad troseddol, os o gwbl?

Yn ystod eich cwrs ym mlwyddyn 13 fe fyddwch chi'n cwblhau Uned 3 sef 'O Leoliad y Drosedd i'r Llys'. Mae'r uned yn canolbwyntio ar y System Cyfiawnder Troseddol o'r adeg y caiff trosedd ei gyflawni hyd at benderfyniad y rheithfarn (jury) mewn Llys. Byddwn yn edrych ar y swyddi gwahanol o fewn ymchwiliad troseddol a'i rôl wrth gasglu a phrosesu tystiolaeth (heddlu, ymchwilwyr fforensig, CPS, proffilwyr). Bydd yr uned hon yn caniatáu chi i ennill y ddealltwriaeth a'r sgiliau i allu archwilio dilysrwydd rheithfarnau (verdicts) a roddir mewn achosion troseddol.

Byddwn yn edrych ar nifer o astudiaethau achos gan gynnwys achosion Amanda Knox, Stephen Lawrence, Jill Dando i enwi ond rhai.

Yn Uned 4 ym mlwyddyn 13 fe fyddwch chi'n edrych ar y system gyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn ystyried sut mae cyfreithiau yn cael eu creu a beth yw rôl cyrff allweddol megis yr heddlu. Bydd edrych ar waith yr heddlu yn rhan bwysig o waith blwyddyn 13 ac felly'n addas i'r rheiny sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y maes yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn edrych ar 'gosbi' a nodau gwahanol cosbi gan ystyried pa mor effeithiol yw cosbau megis 'y gosb eithaf' a 'carcharu' wrth gyrraedd y nodau hynny.

Fel rhan o'r cwrs rydym yn ymweld â Phencadlys yr Heddlu, Uned fforensig Prifysgol De Cymru a'r llysoedd lleol.

## Sut asesir y cwrs?

Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ac academaidd drwy ddysgu cymhwysol a bydd aseiniadau'n rhoi cyfleoedd i ddysgu am y sector cyfiawnder troseddol wrth astudio troseddeg mewn ffordd ysgogol. Mae hyblygrwydd y cyrsiau'n galluogi'r dysgwyr i arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb unigol. Yn ogystal mae'r dull asesu yn cynnwys cyfuniad o brosiectau ac astudiaethau achos, sy'n addas i wahanol arddulliau dysgu. Mae 50% o'r cwrs yn waith cwrs a 50% o'r cwrs yn arholiad (dwy arholiad 90m yr un).

### Blwyddyn 12 (UG)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Deall Troseddau | 50% | Gwahanol fathau o droseddau; Adrodd am droseddau; Troseddu yn y Cyfryngau; Casglu data am droseddu; Creu Ymgyrch | Gwaith Cwrs |
| **Uned 2** | Theori Troseddu | 50% | Esboniadau gwahanol am droseddu; Effaith y theori hon ar yr heddlu a datblygu polisi | Arholiad allanol |

### Blwyddyn 13 (Lefel A)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 3** | Ymholi i droseddau | 50% | Ymholi i droseddau; Prosesu Tystiolaeth; Rôl y Llysoedd; Defnyddio tystiolaeth | Gwaith cwrs |
| **Uned 4** | Trosedd a Chosb | 50% | Sut mae'r system droseddol yn gweithio; Pwrpas cosbi; Rôl yr heddlu; Rheolaeth Gymdeithasol | Arholiad allanol |

# Twristiaeth

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio twristiaeth yn fodd o datblygu gyrfa yn y maes Teithio a Thwristiaeth neu feysydd tebyg. Trwy'r pwnc fe fyddwch yn datblygu dealltwriaeth o raddfa a phwysigrwydd y diwydiant Teithio a Thwristiaeth a chyd-ddibyniaeth ei Sectorau. Fe fyddwch hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r amrediad o gyrchnodau twristiaeth tu fewn y Deyrnas Unedig ac hefyd gweddill y byd. Yn ychwanegol bydd y pwnc yn datblygu a chynnal diddordeb eang mewn Teithio a Thwristiaeth a'r materion sy'n effeithio ar ddatblygiad y diwydiant.

## Cynnwys y cwrs?

- Natur a Nodweddion teithio a thwristiaeth.
- Strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, Ewrop a'r byd.
- Datblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, Ewrop a'r byd.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae gofyn bod myfyrwyr wedi cael 5 TGAU A* - C TGAU. Nid yw TGAU Twristiaeth yn angenrheidiol.

## Sut asesir y cwrs?

### Blwyddyn 12 (Tystysgrif)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Diwydiant Twristiaeth Byd-eang | 40% (Tystysgrif) 20% (Diploma) | Sectorau'r diwydiant twristiaeth, Twristiaid a'r cymhelliant i deithio, Strwythurau a'r rhyngberthnasoedd ym maes twristiaeth, Gwerth twristiaeth i'r economi | Arholiad allanol |
| **Unedau Ychwanegol** | Unedau dewisol (2 uned o ddewis yr ysgol) | 60% (Tystysgrif) 30% (Diploma) | 2 o'r 6 canlynol: Rheoli Profiad y Cwsmer, Cyrchfannau Byd-Eang, Cynllunio Cydlynu a Chynnal digwyddiad, Marchnata Ddigidol, Cyflogaeth yn y sector, Addasu i Newid. | Asesiadau Mewnol |

### Blwyddyn 13 (Diploma)

| UNEDAU | TEITL | GWERTH | CYNNWYS | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 2** | Cymru fel Cyrchfan i Dwristiaid | 20% | Y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, Hygyrchedd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid, Materion sy'n effeithio ar dwristiaeth yng Nghymru, Tueddiadau a blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr | Arholiad allanol |
| **Unedau Ychwanegol** | Unedau dewisol (2 uned o ddewis yr ysgol) | 25% | 2 arall o'r 6 canlynol: Rheoli Profiad y Cwsmer, Cyrchfannau Byd-Eang, Cynllunio Cydlynu a Chynnal digwyddiad, Marchnata Ddigidol, Cyflogaeth yn y sector, Addasu i Newid. | Asesiadau Mewnol |

# Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

## Pam astudio'r pwnc?

Drwy gwblhau cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, bydd dysgwyr yn:

• datblygu, yn defnyddio ac yn cael eu hasesu ar eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol (y Sgiliau 'Cyfannol')
• cael cyfleoedd i ddatblygu ymhellach eu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol (y Sgiliau 'Mewnblanedig')
• dod i werthfawrogi pwysigrwydd y broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar ddysgu gydol oes
• cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithredol, creadigol, ac wedi'u harwain gan y dysgwr
• ymholi a meddwl drostynt hwy eu hunain, cynllunio, gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, datrys problemau a myfyrio arnynt a'u gwerthuso
• datblygu blaengaredd, annibyniaeth a gwydnwch
• gweithio'n annibynnol, ymgymryd â chyfrifoldebau a gweithio'n effeithiol gydag eraill.

## Gofynion mynediad i'r cwrs?

Mae'r Fagloriaeth Sgiliau Uwch yn agored i'r myfyrwyr hynny sydd wedi cyflawni gradd P2 Baglorioaeth Cymru Tystysgrif Her Sgiliau TGAU a byddai'n fanteisiol bod gan y myfyrwyr graddau A* i C mewn Iaith Saesneg/Cymraeg Iaith a TGAU Mathemateg/Rhifedd.

## Cynnwys y cwrs?

**Prosiect Cymuned Byd-eang (25%)**

Mae'r Project Cymuned Byd-eang yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso Sgiliau Cyfannol drwy ystyried materion byd-eang cymhleth a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol (15 awr o leiaf) i hybu dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy a Chymru.

**Prosiect Cyrchfan y Dyfodol (25%)**

Mae Project Cyrchfan y Dyfodol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan archwilio ar yr un pryd nodau ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth yn y dyfodol mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.

**Prosiect Unigol (50%)**

Mae'r Project Unigol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso Sgiliau Cyfannol drwy gynllunio, rheoli a chynnal project ymchwil annibynnol (project ysgrifenedig estynedig neu arteffact).

## Sut asesir y cwrs?

Asesir pob Prosiect drwy gyfres o dasgau lle mae gofyn i ddysgwyr arddangos sut maen nhw'n cymhwyso eu sgiliau cynllunio a threfnu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol. Wrth gwblhau eu hasesiadau bydd dysgwyr yn archwilio testunau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt o fewn themâu wedi'u diffinio'n fras sy'n gysylltiedig ag Agenda Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru. Ynghyd â dwy lefel A arall byddwch yn ennill Lefel A Bagloriaeth Cymru. Nid oes arholiadau allanol, asesir eich gwaith yn fewnol ac yn allanol. Mae'r cymhwyster wedi'i raddio o A*- E ac yn gyfartal o ran gwerth â Safon Uwch eraill.